# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

## Cynnwys


1. Cyflwyniad 2

2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o berfformiad 3

3. Sut mae pobl yn ein helpu i siapio ein gwasanaethau 4

4. Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu cefnogi 20

   a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni 20

   b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol. 28

   c) Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed 33

   d) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas 39

   e) Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach 43

   f) Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion 47

5. Sut rydym yn cyflawni ein gwaith 59

   a) Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol 59

   b) Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol 66

   c) Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd 67

Cael gafael ar ragor o wybodaeth a dogfennau allweddol 70

   Rhestr Termau 70

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

## 1. Cyflwyniad

Mae Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych yn dangos sut rydym wedi hyrwyddo lles ac wedi bodloni'r safonau lles dan ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Dros y 12 mis diwethaf mae ein Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion a Phlant wedi parhau i deimlo'r pwysau sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff gofal cymdeithasol ac anghenion mwymwy cymhleth. Mae hyn yng nghyd-destun lleihau cyllid awdurdod lleol a gorfod gwneud arbedion a lleihau'r pwysau ariannol a deimlir ar draws y rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol, nid yn unig yng Nghymru ond ar draws y DU.

Trwy gydol y flwyddyn o fewn Gofal Cymdeithasol Oedolion, rydym wedi gweld rhestrau aros yn parhau i dyfu ar gyfer asesiadau ac mae staff yn ei chael yn fwyfwy heriol i gomisiynu pecynnau gofal a chefnogaeth i ganiatau ar gyfer rhyddhau amserol o'r ysbyty. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld nifer o gynnydd mewn micro-ddarparwyr ynghyd â chynnydd yn y nifer o bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol i gael mwy o ddewis a rheolaeth dros eu hanghenion gofal a chefnogaeth.

O fewn ein Gwasanaethau Plant, mae'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth wedi parhau wrth i recriwtio a chadw gweithwyr cymdeithasol fod yn her barhaus.Llwyddwyd i recriwtio rhai gweithwyr proffesiynol parhaol ond mae yna rywfaint o ffordd i fynd eto o fewn timau rheng flaen allweddol. Er gwaethaf hyn, mae Gwasanaethau Plant wedi parhau i gwrdd â'r galw a chyflawni eu gofynion statudol.

Bydd yr adroddiad hwn yn gwerthuso perfformiad Cyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â darparu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf. Byddwn yn egluro sut y llwyddom i gyflawni 6 safon ansawdd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chanlyniadau lles:

- Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni.
- Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu a hybu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.

- Gweithio gyda phobl a'u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy'n bodloni eu hanghenion.
- Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach.
- Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.
- Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

## 2. Crynodeb y Cyfarwyddwr o berfformiad

Mae Sir Ddinbych fel y rhan fwyaf o Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn Awdurdodau Lleol yn gorfod cydbwyso'r galw a chymhlethdod yn erbyn heriau ariannol sylweddol ac er bod Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant yn parhau yn flaenoriaeth i'r Cyngor, rydym yn teimlo effeithiau'r gwrthdaro yma yn ddyddiol.

Rwy'n hynod falch o ymroddiad, ymrwymiad a gwaith caled rwy'n ei weld o ddydd i ddydd ar draws fy nhimau. Mae'r straeon newyddion da ac astudiaethau achos sy'n dod ar draws fy nesg yn fy nghyffwrdd yn rheolaidd, sy'n ein hatgoffa ni gyd am y gwahaniaeth rydym yn ei wneud i fywydau rhai o'n dinasyddion mwyaf bregus yn Sir Ddinbych.

Rwyf i a fy nhîm arweinyddiaeth yn gweithio'n ddiflino gyda nid yn unig ein cydweithwyr Corfforaethol, ond cyfoedion rhanbarthol a chenedlaethol i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan Ofal Cymdeithasol. Rydym yn cydweithio i nodi cyfleoedd i fynd i'r afael â materion, gwneud y mwyaf o adnoddau a chodi ymwybyddiaeth am y materion a wynebir gan y sector. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein blaenoriaeth wedi bod i reoli'r llif drwy'r drws ffrynt a sicrhau ein bod yn cwrdd â'n rhwymedigaethau statudol.

O fewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion mae'r canolbwynt wedi bod ar weithio gyda'n cydweithwyr iechyd i gefnogi pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain yn ogystal â rheoli rhyddhau'n amserol o'r ysbyty.

Ar gyfer ein Gwasanaethau Plant mae ein blaenoriaeth wedi bod ar recriwtio staff parhaol, ymgorffori ein cynnig therapiwtig a recriwtio gofalwyr maeth.

Rwy'n falch o ddweud yn dilyn nifer o rwystrau, mae datblygiad Bwthyn y Ddôl bellach yn yn mynd rhagddo'n dda, gyda'r gwaith adeiladu ar y blaen a disgwylir cwblhau'r gwaith nawr yn yr hydref 2024.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Er y bydd yr heriau yn parhau drwy eleni a'r flwyddyn nesaf, rwy'n ffodus o gael tîm arloesol a chreadigol gyda'u hymroddiad a chadernid yn cefnogi ein 'Un Cyngor' i gwrdd â'r rhain yn uniongyrchol!



**Nicola Stubbins**
**Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg**

## 3. Sut mae pobl yn ein helpu i siapio ein gwasanaethau

Ein prif ddiben yw darparu gwasanaethau a fydd yn cwrdd ag anghenion ein dinasyddion, nawr ac yn y dyfodol. Drwy gydol y flwyddyn, mae yna nifer o ffyrdd ble rydym wedi cynnwys dinasyddion sydd wedi helpu'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant i ddatblygu a chyd-gynhyrchu gwasanaethau, gydag enghreifftiau isod.

**Mae pob Dinesydd yn Datblygu eu Gwasanaeth eu Hunain**

Mae pob un ohonom yn wahanol, fel y dinasyddion a gefnogir gennym, a dyna pam ein bod yn credu bod pob cyswllt sydd gennym gyda'n dinasyddion yn rhoi cyfle iddynt ddatblygu eu gwasanaeth eu hunain. Rydym yn cydnabod cryfderau, dyheadau unigolion a'r hyn sydd bwysicaf ac rydym yn gwneud ein gorau i gynnig ymateb wedi ei deilwra'n unigol i gyflawni deilliannau cymwys.


Rydym yn parhau i hybu taliadau uniongyrchol fel modd o gyrraedd y nod hwnnw. Rydym yn falch iawn o adrodd erbyn diwedd y flwyddyn fod gennym 57 o Ficro Ddarparwyr yn Sir Ddinbych, gan gynnig dewis a rheolaeth bellach i'n dinasyddion i ddatblygu'r gofal a'r gefnogaeth a dderbynnir ganddynt.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

**Pobl Hŷn yn gwneud Sir Ddinbych yn le da i heneiddio.**

Mae Heneiddio’n Dda yn Sir Ddinbych yn parhau i gwrdd yn rheolaidd. Mae hwn yn rwydwaith hirsefydlog o asiantaethau ac unigolion gyda’r un nod o wneud Sir Ddinbych yn le da i heneiddio. Maent yn cyfrannu at y cais i Sefydliad Iechyd Y Byd (WHO) gydnabod Sir Ddinbych fel Cymuned sy'n Gyfeillgar i Oed.

Maent wedi cyfuno gyda grŵp Sy’n Deall Dementia Sir Ddinbych ac yn edrych ar sut i wneud ein sir yn hygyrch ac yn ‘gyfeillgar’ i bawb. Mae aelodau o bob oed wedi bod yn edrych ar gyflawniadau a bylchau mewn darpariaeth o dan yr 8 parth o’r Gymuned sy'n Gyfeillgar i Oed.




Mae adborth o weithdai a thrafodaethau yn ffurfio rhan fawr o’r Asesiad Sylfaenol, sy’n rhan hanfodol o’r cais.

Er ein bod ni, fel eraill yn ei chael hi’n anodd gydag effaith toriadau yn y gyllideb a chostau byw, mae cynnydd yn cael ei wneud. Er enghraifft, Cyngor Sir Ddinbych yn cytuno i fod yn gyflogwr Cyfeillgar i Oed a chynnal ymarferion ar gyfer ‘Cerdded’ i weld pa mor hygyrch yw amrywiol gymunedau yn Sir Ddinbych.

Mae’r rhwydwaith Heneiddio’n Dda yn Sir Ddinbych wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu ar draws y sir. Roedd oddeutu 100 o bobl wedi mynychu’r un diwethaf a gynhaliwyd ar 1 Chwefror 2024 yn Neuadd Bentref Trefnant. Roedd y rhan fwyaf o’r mynychwyr yn bobl hŷn, o fforymau pobl hŷn a gynhaliwyd gan Age Connects, cymdeithasau ymddeoliad ar draws y sir, preswylwyr, aelodau o’u teuluoedd, staff mewn cartrefi gofal ac unigolion â diddordeb arbennig. Ymunwyd â nhw gan bobl yn cynrychioli amrywiol wasanaethau a phlant o ysgol leol. Mae data a gasglwyd wedi llywio’r Cynllun Gweithredu Age Friendly a gyflwynir i Sefydliad Iechyd y Byd.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn comisiynu Age Connects Canol Gogledd Cymru i gydlynu nifer o fforymau pobl hŷn ar draws y sir. Mae aelodau pob fforwm yn penderfynu pa bynciau maent eisiau eu trafod ym mhob cyfarfod, ond maent hefyd yn croesawu ymwelwyr sydd eisiau cyngor a chasglu barn am ystod o bynciau. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi mynychu i ofyn am farn am y gwasanaethau mae aelodau'n eu cael ac weithiau mae swyddogion contractau o Gyngor Sir Ddinbych yn mynychu i ofyn am help i siapio'r gwasanaethau maent yn eu caffael.

Mae aelodau'r fforymau'n cyfrannu at newyddlen reolaidd Age Connects a chyfarfodydd perthnasol. Mae llawer wedi mynychu'r cyfarfodydd Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych ac mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru neu ei chynrychiolwyr wedi bod yn bresennol.

Yn dilyn adborth gan 'ConneXions', grŵp cymunedol yn Nhrefnant, mae grant Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oed wedi cefnogi pobl o bob oedran i greu llyfr o ysgrifau a dehongliadau gyda chyfraniadau gan yr ysgol gynradd leol a phreswylwyr mewn gofal preswyl. (Mae'r cyfrannwr ieuengaf yn 3 oed a'r hynaf yn 103 oed!). Mae'r llyfr a elwir yn 'Plethu'r Straeon' nawr wedi'i sefydlu ac mae copiau am ddim i unrhyw un sy'n fodlon ychwanegu awgrym o ran sut i wneud ein sir yn fwy cyfeillgar i oed.

I grynhoi, mae rhai enghreifftiau penodol o'r datblygiadau a'r newidiadau a wnaed oherwydd adborth gan bobl hŷn yn cynnwys:

- Mae gwasanaeth bws wedi'i adfer oherwydd adborth gan fforwm pobl hŷn Llanelwy a gynhelir gan Age Connects.
- Cafodd diwrnod 'hyder i deithio' ei drefnu gan Age Connects mewn cydweithrediad â Thrafnidiaeth Cymru, i helpu pobl hŷn i ddatblygu hyder i ddefnyddio cludiant cyhoeddus. Roedd hyn yn dilyn adborth gan berson hŷn oedd yn methu gwneud siwrnai a drefnwyd ar drên gan nad oedd wedi rhagweld y byddai angen bod yn llythrennog yn ddigidol.
- Gwnaed ymdrechion i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn ffurf ysgrifenedig, yn hytrach na dibynnu ar fodd digidol, oherwydd ceisiadau gan bobl hŷn. Mae yna dal fwy i'w wneud yn y maes hwn, i leihau dibyniaeth ar fodd o gyfathrebu digidol.
- Mae bobl hŷn wedi gofyn am fwy o weithgaredd yn pontio'r cenedlaethau, felly mae Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych wedi ymrwymo i barhau i ddarparu hyn a datblygu hyn o fewn digwyddiadau yn y dyfodol.

- Mae adborth gan breswylwyr hŷn a'u teuluoedd wedi llywio penderfyniadau am y camau nesaf i gartrefi gofal y bu pryderon amdanynt.
- Mae holiaduron wedi eu defnyddio a chynhaliwyd trafodaethau gyda thenantiaid Tai Gofal Ychwanegol Awel y Dyffryn i gael adborth ar y gwasanaeth a dderbynnir ganddynt e.e. beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd ddim yn gweithio'n dda a gallu ei wella. Bydd hyn yn cyfrannu at gynllunio a datblygu'r gwasanaeth yn y dyfodol.

**Timau Adnoddau Cymunedol Sir Ddinbych - Rydym yn gryfach gyda'n gilydd!**

Rydym yn gwybod ein bod yn gryfach gyda'n gilydd yn cyflawni'r deilliannau iechyd a lles a ddymunir i ddinasyddion Sir Ddinbych, a dyna pam, gyda Bwrdd Iechyd PBC, bod gennym bedwar tîm Adnoddau Cymunedol ar draws Sir Ddinbych. Maent yn cynnwys staff Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Trydydd Sector, sy'n gweithio'n agos gyda meddygfeydd lleol. Mae pob un o'r Timau yn parhau i ddatblygu modelau integredig newydd o weithio er budd dinasyddion. I brofi ein barn ein bod yn darparu gwasanaethau gwell gyda'n gilydd, pob mis cysylltir â nifer o ddinasyddion am adborth ar y gwasanaeth maent wedi'i dderbyn. Dyma oedd ganddynt i'w ddweud wrthym:

- 'Teimlo y gallai Gwasanaethau Cymdeithasol weld beth oedd ei angen a siaradwyd gyda chydweithwyr i gael y cymorth a'r gefnogaeth gywir iddynt. Ni ellir gwneud mwy.'
- 'Mae'r gwely ysbyty, sedd ffrâm toiled newydd a chomôd ychwanegol a drefnwyd gan ThG wedi gwneud pethau'n llawer gwell.'
- "Mae'n wasanaeth bendigedig ac nid wyf erioed wedi cael fy ngadael i lawr wrth ofyn am gymorth."
- Teimlo yn "cael gwasanaeth da iawn" ac yn "hapus a diolchgar iawn" am y gwasanaeth a ddarperir.
- 'Dim cwynion am unrhyw aelod o staff yn y proffesiwn meddygol a gofal. Maent yn bobl ardderchog ac mae popeth wedi'i drefnu'n dda iawn."

Rydym bob amser yn agored i adborth sy'n ein helpu i wella ein gwasanaeth, roedd un dinesydd yn dweud wrthym nad oedd yn cofio enwau'r gweithwyr proffesiynol oedd wedi ymweld, mae gennym gynlluniau i weithredu ar hyn.

Yn ystod y flwyddyn, roedd Tîm Adnodd Cymunedol Rhuthun a Chorwen wedi cynnal digwyddiadau 'cwrdd â'r cyhoedd a'r darparwr' yn Rhuthun, Corwen a Llangollen.

Darparu cyfle i bobl leol a darparwyr lleol gwrdd â’r tîm. Derbyniwyd ymateb cadarnhaol i’r digwyddiadau gydag adborth fel ‘Tîm ardderchog - cyfeillgar iawn, llawer o wybodaeth ddefnyddiol’ a ‘rhan wych o’r gymuned.’

**Grwpiau Hunan-eiriolaeth ac Ymarfer Tendro**

Yn ystod y flwyddyn roedd aelodau o’r ddau grŵp hunan-eiriolaeth Sir Ddinbych wedi derbyn y cynnig i lenwi holiadur adborth Gwasanaeth, gwahoddwyd barn ar ddarpariaeth gwasanaeth presennol a disgwyliadau.

Bydd yr adborth a dderbynnir yn llywio’r fanyleb gwasanaeth ar gyfer y gwasanaeth hunaneiriolaeth newydd a fydd yn cael ei dendro. Mae ein Tîm Contractau a Chomisiynu hefyd wedi ymuno â’r grŵp hunaneiriolaeth i gael cipolwg ar weithgareddau’r grŵp a chael adborth gwerthfawr uniongyrchol. Gwneir ymdrechion i hefyd sicrhau cyfraniad ystyrlon dinasyddion yn y gwerthusiad tendr ar gyfer y gwasanaeth hwn.

**Gofalwyr a Seibiant Ystyrlon**

Mae Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych wedi parhau i fod yn fforwm gweithredol o sefydliadau gofalwyr o’r sector statudol a’r trydydd sector yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ofalwyr. Mae’r grŵp yn gweithio i ddatblygu cefnogaeth i gwrdd ag anghenion gofalwyr yn Sir Ddinbych, gan gynnwys llawer sydd heb fynediad digidol.

Mae aelodau yn rhannu gwybodaeth a phrofiadau ac yn cydweithio, yn cysylltu gyda fforymau lleol eraill gan gynnwys Heneiddio’n Dda yn Sir Ddinbych. Mae sefydliadau unigol yn cynnal eu harolygon Gofalwyr eu hunain ac yn rhannu canfyddiadau. Maent hefyd yn cydlynu ac yn cynnal digwyddiadau a gweithgareddau ar y cyd i ddathlu Wythnos Genedlaethol Gofalwyr, Diwrnod Gweithredu Gofalwyr Ifanc a Diwrnod Hawliau Gofalwyr.

**Tîm Adsefydlu Byd-eang**

Mae’r Tîm Adsefydlu Byd-eang yn dîm amrywiol sy’n dod â bobl ynghyd o wahanol gefndiroedd, profiadau a safbwyntiau; mae hyn yn sicrhau ein bod yn dathlu diwylliannau gwahanol ac yn llywio ein hymarfer. Rydym yn gwerthfawrogi ac yn parchu gwahaniaethau ein gilydd ac yn croesawu syniadau newydd, mae hyn yn sicrhau ein bod yn hybu cynhwysiant ac amgylchedd croesawgar i staff a dinasyddion a gefnogir gennym.

Mae gennym hyfforddiant ymwybyddiaeth rheolaidd, digwyddiadau diwylliannol amrywiol a thrafodaethau o fewn y tîm sy'n cefnogi dealltwriaeth a gwerthfawrogi amrywiaeth ymhellach.

**Pobl ag Anableddau Dysgu**

Mae'r Tîm Anableddau Cymhleth wedi parhau i adfywio ein harfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chyd-gynhyrchu. Roeddent yn ffodus i fod wedi sicrhau cydlynydd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn am 18 mis. Roedd y tîm yn falch iawn bod dinesydd yn rhan o'r broses recriwtio ac yn un o aelodau'r panel yn ystod y cyfweliadau. Bu sesiynau hyfforddi gyda'n staff i sicrhau bod gwaith ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn cael ei gadw'n fyw a'i fod wedi'i bersonoli fwy o amgylch bob dinesydd gyda dewis o wahanol offer i'w galluogi i fyw y bywyd maent yn ei ddewis, mor annibynnol a diogel â phosibl.

**Prosiect 'Cadw Fy Nghartref'**

Cafodd holiadur ymgynghoriad ei rannu gyda holl ddinasyddion sy'n derbyn gwasanaethau Grant Cymorth Tai ar hyn o bryd i lywio'r fanyleb gwasanaeth ar gyfer y prosiect 'Cadw Fy Nghartref' newydd. Cafodd hefyd ei rannu gyda'r gwasanaeth a'r gymuned ehangach a derbyniwyd ymatebion gan ddarparwyr, gweithwyr proffesiynol, cynghorwyr tref a sir, gweithwyr gwirfoddol a dinasyddion Sir Ddinbych sydd wedi bod neu'n ddigartref ar hyn o bryd neu mewn perygl o fod yn ddigartref.

Cafodd ymarfer ymgynghoriad ei gynnal i lywio'r fanyleb ar gyfer y fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru newydd (fydd yn dechrau yn Ebrill 2025).

**Pwyntiau Siarad - Sgorio eich profiad 'Mae'r hyn sy'n bwysig i chi yn bwysig i ni'**

Mae Pwyntiau Siarad yn ffordd i bobl Sir Ddinbych ddarganfod pa gymorth a chefnogaeth sydd ar gael yn eu hardal leol i'w helpu nhw i wella eu hiechyd a'u lles.

Mae'r gwasanaeth yn darparu gwybodaeth am beth sydd ar gael mewn ardal, fel gwasanaethau cymunedol, gweithgareddau neu grwpiau cefnogi. Mae'r gwasanaeth wedi'i sefydlu ym mhob llyfrgell ledled y sir, gydag ystod o sefydliadau trydydd sector hefyd yn bresennol - gan gynnwys Sir Ddinbych yn Gweithio, Cyngor ar Bopeth (CAB), gwasanaethau gwirfoddol a llawer mwy.

Mae'r gwasanaeth Pwyntiau Siarad yn cynnig cyfle i bobl gael sgwrs wyneb yn wyneb gyda Llywiwr Cymunedol am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, yn ogystal â chyfle i rannu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad i wella lles pobl eraill yn y gymuned a rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 roeddent wedi helpu 917 o ddinasyddion Sir Ddinbych. Ym mhob Pwynt Siarad rydym yn gwahodd y dinasyddion sydd wedi galw heibio i'n gweld i sgorio eu profiad a rhoi adborth i ni.

- 'Defnyddiol gallu galw heibio - gwneud bywyd yn llawer haws'.
- 'Da i wybod ei fod yn wythnosol ac y gallaf alw i mewn eto'.
- 'Mae'r gwasanaeth hwn yn amhrisiadwy.  Yn arbennig o ddefnyddiol ei fod yn gyson ac yn ddibynadwy'.
- 'Roeddwn yn teimlo y gallwn i fod yn agored gyda nhw oherwydd eu bod yn gwneud i mi deimlo'n gartrefol'.

**Gofalwyr Ifanc**

Mae Cyngor Sir Ddinbych, mewn partneriaeth gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Sir y Fflint a Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn comisiynu Gwasanaeth Gofalwyr Ifanc WCD (Wicked). Mae'r gwasanaeth wedi darparu gwybodaeth a chyngor, sesiynau cefnogi unigolyn a grŵp i bron 600 o ofalwyr ifanc yn byw yn Sir Ddinbych eleni. Mae'r gweithgareddau grŵp a seibiant byr a ddarperir gan staff cefnogi WCD i gyd yn cael eu cyd-gynhyrchu gyda'n pobl ifanc.

Prif uchafbwyntiau eleni yw:

**Adfywio'r cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc**

Mae hybu'r Cerdyn ID i ofalwyr ifanc yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mewn adborth o waith ymgynghori grŵp mae gofalwyr ifanc wedi dweud yr hoffent i weithwyr proffesiynol, er enghraifft athrawon, meddygon a fferyllwyr ddangos mwy o empathi a dealltwriaeth o'r heriau mae gofalu am frawd neu chwaer neu riant yn ei gael arnynt a helpu i ddod o hyd i atebion i leihau'r pwysau hwn. Mae gofalwyr ifanc o'n Fforwm Ieuenctid WCD wedi creu fideo, fel rhan o brosiect Arweinwyr Ifanc N.E.W, i hybu'r defnydd o'r cerdyn adnabod a chodi ymwybyddiaeth gyda gweithwyr proffesiynol am eu barn a phwysigrwydd y cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc. Gallwch ei weld yma: Cerdyn adnabod gofalwyr ifanc (yn saesneg).

**Sesiynau Grŵp Bach**

Yn dilyn adborth gan rai gofalwyr ifanc oedd yn dweud nad oedd grwpiau mawr iddyn nhw, roedd Gofalwyr Ifanc WCD wedi dechrau sesiynau grŵp bach. Roedd yn well gan ofalwyr ifanc o dan 8 oed yn ogystal â phobl ifanc gyda Chyflyrau Sbectrwm Awtistiaeth (CSA), gorbryder a/neu gyflyrau iechyd meddwl amgylchedd grŵp llai ar gyfer cefnogaeth a gweithgareddau. Roedd y bobl ifanc yn y grwpiau cefnogi cyfoedion hyn wedi eu hannog i ddewis gweithgareddau yr oeddent eisiau eu gwneud. Er enghraifft, roedd WCD yn gallu mynd ag ambell berson ifanc gyda Chyflwr Sbectrwm Awtistiaeth i'r parc sglefrio dan do yng Nghanolfan Hamdden Glannau Dyfrdwy. Daethant â'u sgwteri gyda nhw a mwynhau ychydig oriau yn cael hwyl ac yn defnyddio eu sgiliau corfforol. Yr adborth oedd bod y dull grŵp bach yn helpu i gynyddu hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol yn ogystal â theimlo eu bod yn cael gweithgaredd 'plentyndod arferol'.

**Cymryd pob cyfle i godi ymwybyddiaeth - Arddangosfa Ffotograffiaeth Gofalwyr Ifanc**

Roedd un gofalwr ifanc o'r Rhyl a'u teulu wedi cymryd rhan yn yr Arddangosfa Ffotograffiaeth Gofalwyr Ifanc, oedd yn edrych ar fywyd fel gofalwr ifanc drwy ffotograffiaeth naturiol. Roedd yr arddangosfa yn cael ei chynnal tan 30 Ebrill yn Tŷ Pawb, Wrecsam ac yn cynnwys cyfres o luniau o ofalwyr ifanc gyda'u teuluoedd yn chwarae, chwerthin a chysylltu. Roedd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth gofalwyr ifanc mewn ysgolion, yn eu cymuned ac yn genedlaethol.

Mae yna dal fwy i'w wneud er mwyn gwella cefnogaeth i ofalwyr ifanc gan gynnwys:

- Mae gofalwyr ifanc yn dal i ddweud wrthym eu bod eisiau i leoliadau addysgol ddangos mwy o empathi a dealltwriaeth o'r heriau maent yn wynebu a'u cefnogi gydag atebion i leihau'r pwysau sydd arnynt, i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol iddynt. Byddwn yn defnyddio Fframwaith Dull Ysgol Gyfan Llywodraeth Cymru ar gyfer lles emosiynol a meddyliol i hybu'r Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion a'r Cynllun Mentoriaid Cyfoedion.
- Mae cludiant yn parhau i fod yn rhwystr i rai o'n gofalwyr ifanc sy'n methu mynd i weithgareddau oherwydd nad yw rhieni / gofalwyr yn gallu dod â nhw. Mae staff WCD yn darparu cludiant, pan fydd hynny'n bosibl, ond nid yw hwn bob amser ar gael wrth gynnal sesiynau grŵp bach cefn gefn min nos. Byddwn yn gweithio gyda WCD i archwilio syniadau ar gyfer cefnogi gofalwyr ifanc sy'n methu cael mynediad i gludiant, i'w helpu nhw i gyrraedd sesiynau.

- Rydym angen datblygu proses mwy cadarn i gefnogi pontio Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr i wasanaethau oedolion. Mae WCD eisoes wedi dechrau trafodaethau gyda Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru am bontio a datblygir hyn drwy'r Grŵp Strategaeth Gofalwyr.

**Gwasanaethau Plant**

**Iaith sy'n Ystyriol -** Ers yr ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc am yr iaith a ddefnyddir gan Wasanaethau Plant wrth siarad gyda nhw am eu gofal yn 2022/23, mae'r Swyddog Datblygu Busnes wnaeth gynnal yr ymgynghoriad wedi mynychu amrywiol gyfarfodydd tîm o fewn y Gwasanaeth i rannu eu canfyddiadau a gweithio ar ddiweddaru dogfennau sydd gan blant a phobl ifanc fynediad iddynt.

Rydym yn adolygu ein Siarter Rhianta Corfforaethol ar hyn o bryd yn unol â chanfyddiadau'r ymgynghoriad hwn. Ar ôl ei gwblhau bydd hwn yn cael ei gymeradwyo a'i lofnodi'n ffurfiol gan yr Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Theuluoedd a chynrychiolydd o'n cymuned Plant sy'n Derbyn Gofal, sydd wedi gweithio ar yr ymgynghoriad gyda'r adran.

**Clwb Plant mewn Gofal (Plant mewn Gofal - Fforwm Pobl Ifanc) -** Mae'r Clwb Plant Mewn Gofal yn fforwm a sefydlwyd yn 2014 ar gyfer pobl ifanc rhwng 8 a 15 oed yn Sir Ddinbych sy'n derbyn gofal ac yn byw â gofalwyr maeth. Maent yn cyfarfod yn ystod gwyliau hanner tymor ac yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau ac mae'n gyfle i rannu eu profiadau, dweud beth sy'n gweithio'n dda a beth fyddent yn hoffi ei newid.

Roedd 2023/24 eto yn flwyddyn brysur i aelodau Clwb Plant mewn Gofal a dyma rai o'r pethau maent wedi bod yn ei wneud;

- Ym mis Mai, gwnaethant ymuno â'r sesiwn Ceidwaid Chwarae yng Nghanolfan y Dderwen. Roedd yn sesiwn gwych ble roedd aelodau yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dan do ac awyr agored i'w helpu nhw i ddatblygu eu hiechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol.
- Roedd Gweithgaredd yr Haf ym mis Awst yn Sesiwn Cefn Gwlad Gwyllt Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy gydag Arweinydd Mynydd Profiadol o Wilderness Wales. Roeddent wedi cymryd rhan mewn taith gerdded, gwneud tân i dostio malws melys a dysgwyd rhai sgiliau i'w helpu nhw os byddant yn canfod eu hunain mewn ychydig o benbleth yng nghefn gwlad.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Cafodd sesiwn hanner tymor Hydref 2023 ei arwain gan yr Uned Diogelu ac Ansawdd Ymarfer a gofynnwyd i'r plant / pobl ifanc oedd yn bresennol am eu barn ar yr adolygiad delfrydol, mae rhai enghreifftiau o'r adborth a dderbyniwyd yn cynnwys;

- Dwi angen mam.
- Cymhelliant
- Rwy'n cael gweld pobl newydd.
- Bod yn hyderus.
- Ysbrydoliaeth gadarnhaol

Mae adborth a gasglwyd wedi'i adolygu gan y Rheolwr Gwasanaeth i wella ansawdd Adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal.

Roedd y sesiwn yn Chwefror 2024 yn Helfa Drysor Awyr Agored ar hyd y traeth yn y Rhyl ble roedd ganddynt gyfres o gliwiau i'w datrys ac er yn ddiwrnod oer iawn, roedd pawb wedi cael amser gwych.







**Cynhadledd Amddiffyn Plant a Ffurflenni Adborth Adolygiad Plant sy'n Derbyn Gofal -** I gael barn mynychwyr ar y Gynhadledd Amddiffyn Plant a phroses Adolygu Plant sy'n Derbyn Gofal, gofynnir i weithwyr proffesiynol, rhieni/gofalwyr a phobl ifanc lenwi ffurflen adborth y gallant ei llenwi naill ai wyneb yn wyneb gyda'u gweithiwr, drwy ddolen electronig neu drwy sganio Cod QR. Mae'r ddwy broses wedi eu hadolygu yn ddiweddar ac mae gwaith ar godi ymwybyddiaeth ac annog cyfranogwyr i roi eu hadborth yn parhau.


**Arolygon Dweud eich Dweud -** Er mwyn casglu barn plant, pobl ifanc a rhieni ar yr effaith mae Gwasanaethau Addysg a Phlant wedi'i chael ar eu bywydau a pha mor ddefnyddiol yw / oedd y gwasanaeth a dderbyniwyd, mae ystod o arolygon Dweud eich Dweud yn cael eu llunio. Bydd y canlyniadau'n helpu i wella'r gwasanaeth yn ogystal â chydnabod beth sydd wedi gweithio'n dda. Ynghyd â'r arolygon, mae canllawiau'n egluro'r dull a'r broses ar gyfer pob arolwg, a chaiff pob ffurflen ei harbed ar ffeil y plentyn.

**Diwedd Cyfnod Lleoliadau** - Caiff y rhain eu cwblhau gan weithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth, rhieni a phlant / pobl ifanc ar ddiwedd cyfnod lleoliad (beth bynnag yw'r rheswm dros ddod â lleoliad i ben). Mae'r adroddiadau hyn yn darparu gwybodaeth bwysig am brofiadau defnyddwyr a staff o'r lleoliad a'r gwasanaethau y maent wedi'u derbyn, ac felly'n darparu ffynhonnell wybodaeth bwysig ar gyfer nodi gwelliannau ansawdd posibl.

Gofynnir hefyd i **Blant / Pobl Ifanc rhieni sy'n maethu** am eu barn/safbwyntiau am beth sy'n dda am faethu fel rhan o Hunanasesiad Gofalwyr Maeth.

**Mind of My Own** (Meddwl Fy Hun) - Platfform ar-lein sy'n galluogi plant a phobl ifanc sy'n gweithio gyda'n Gwasanaethau Addysg a Phlant i ymgysylltu gyda'u gweithiwr a rhannu eu safbwyntiau ynglŷn â'r gofal maent yn ei dderbyn, eu pryderon, ofnau a llwyddiannau. Gall plant a phobl ifanc ddefnyddio Mind of My Own i gyfrannu at eu canlyniadau lles fel rhan o'u cynlluniau gofal a chefnogaeth.

Yn 2023-24 gwahoddwyd plant a phobl ifanc oedd yn derbyn cefnogaeth gan y gwasanaeth i ymuno â Heriau 'Mind of My Own' i hybu'r defnydd o'r platfform, gan sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed. Trwy gydol y flwyddyn mae'r defnydd wedi'i ymestyn ar draws y gwasanaeth i'r Tîm Llwybrau, Cyngor yr Ysgol, Tîm LIFT a Gwasanaeth Ymgynghorydd Personol.




Yn Chwarter 3, cyhoeddwyd Sir Ddinbych yn Berfformiwr Gorau Rhif 1 Mind of My Own yng Nghymru ar gyfer y Chwarter ac yn ogystal, roedd Sir Ddinbych hefyd yn y ganradd uchaf ar gyfer eu holl gwsmeriaid ar draws y DU.

Mae gan 169 o Bobl Ifanc Gyfrif Mind of My Own ac mae gan 194 o Weithwyr Gyfrif Ymarferydd Mind of My Own. Derbyniwyd oddeutu 260 Datganiad gan Blant a Phobl Ifanc rhwng 3 ac 19 oed, gan sicrhau bod eu barn yn cael ei chlywed am eu bywyd a'u gofal.

**Dechrau'n Deg / Teuluoedd yn Unig**

Mae Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg wedi parhau i gynnal digwyddiadau drwy'r Sir yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Digwyddiad Rhannu Gwybodaeth llwyddiannus iawn, wnaeth weld dros 30 o stondinau yn bresennol yn darparu gwybodaeth i deuluoedd ar destunau fel Addysg, Tai, Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Cyflogaeth, Iechyd, Ynni, Materion Ariannol yn ogystal â gwybodaeth ar gefnogaeth a ddarperir gan Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Unig gyda dros 285 o fynychwyr yn dod drwy'r drws.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024



Rydym hefyd wedi cael ein digwyddiadau Amser Hwyl i'r Teulu yn digwydd yng Ngogledd a De'r Sir, yn darparu digwyddiadau ymgysylltu i deuluoedd yn yr ardaloedd, mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn i ymgysylltu gyda'r ardaloedd mwy gwledig yn Sir Ddinbych.  Yn fwy diweddar, rydym wedi creu partneriaethau gyda gwasanaethau eraill o Sir Ddinbych gan gynnwys Hamdden Sir Ddinbych Cyf, Tai Sir Ddinbych, Ceidwaid Chwarae Sir Ddinbych a Gwasanaethau Ieuenctid Sir Ddinbych i gynnal dyddiau Hwyl i'r Teulu eto i gyrraedd mwy o deuluoedd. Ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyn rydym hefyd wedi bod yn cynnal digwyddiadau Ehangu Dechrau'n Deg i deuluoedd yn yr ardaloedd Gofal Plant Dechrau'n Deg newydd cymwys i helpu teuluoedd i gael mynediad i'n gofal plant a ariannwyd.

**Canmoliaeth a Chwynion**

Roedd Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd wedi derbyn 29 o gwynion yn ystod 23/24 (12 Cam 1 ac 17 Cam 2), roedd 34% o'r cwynion wedi eu cadarnhau yn llawn neu'n rhannol.

Nid oedd yr un o'r cwynion Cam 2 yn 23/24 dan Reoliadau statudol Gweithdrefn Gwyno Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2014 a dim ond 3 a gadarnhawyd yn rhannol/llawn.

Mae Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH) nawr yn dod o dan Ofal Cymdeithasol Oedolion, ynghyd â'r Gwasanaeth Digartrefedd ac roedd bron pob un o'r cwynion Cam 2 wedi codi yn y ddau faes yma.Gan eu bod yn dod o dan ddeddfwriaeth y Ddeddf Tai, ni fyddent yn cael eu hymchwilio o dan y gweithdrefnau Statudol, felly rydym yn defnyddio gweithdrefn Cwynion Corfforaethol y cyngor.

Mae'r math yma o gwyn yn symud i gam 2 ar unwaith yn aml, i ganiatau i ymateb mwy ffurfiol gael ei lunio ac i allu atgyfeirio'r achwynydd at yr Ombwdsmon, os nad ydynt yn fodlon gyda'n hymateb ni. Nid oedd yr un o benderfyniadau'r Ombwdsmon yn 23/24 wedi mynd yn erbyn y cyngor.

Roedd Gwasanaethau Plant wedi derbyn 6 chwyn yn 23/24 (5 cam 1 ac 1 cam 2), gyda 50% wedi eu cadarnhau neu eu cadarnhau yn rhannol.

Yn gyffredinol, mae cwynion ar draws y ddau wasanaeth ychydig yn llai, ond mae'r cwynion cam 2 a dderbyniwyd gan y timau atal digartrefedd wedi cynyddu.

Adolygwyd y cwynion i gyd, dynodwyd gwersi i'w dysgu a'u rhoi ar waith ar draws y gwasanaethau fel bo'n briodol. Mae thema sy'n rhedeg drwy'r holl gwynion a dderbyniwyd gennym yn gyson yn ymwneud â chyfathrebu. Rydym wedi ymrwymo i ddysgu o bob cwyn ac rydym yn gweithio'n galed i sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n effeithiol gyda phob dinesydd a gefnogir. Er enghraifft;

O ganlyniad i gwyn ffurfiol Cam 2, a ymchwilwyd gan y Pennaeth Gwasanaeth, cytunwyd ar gam gweithredu i'r Pennaeth Gwasanaeth weithio gyda'r tîm rheoli i sicrhau bod cyfathrebu yn gwella rhwng y timau gwahanol o fewn gofal Cymdeithasol Oedolion, i anelu i sicrhau nad yw gwybodaeth bwysig sydd ar gael i'w rhannu gyda dinasyddion yn cael ei cholli a llai o ddiffyg cyfathrebu yn digwydd.

Mae cronfa ddata gwynion C360 y Cyngor yn galluogi gwasanaethau i gofnodi unrhyw wersi a ddysgwyd o gwynion, pan fo'n briodol. Mae gwersi a ddysgwyd o'r gwyn yn cael eu rhoi ar waith yn y tîm neu wasanaeth ac yna, pan fo'n briodol, yn cael eu rhannu'n fwy eang ar draws y Cyngor.

Gall gwersi ddeillio o gwynion pa un ai a ydynt yn cael eu cadarnhau neu beidio, a nodir enghraifft isod;

Roedd cwyn am wasanaethau mewn Cartref Gofal yn seiliedig ar ddiffyg cyfathrebu ond ni chadarnhawyd gan na nodwyd unrhyw wall ar ran y cyngor. Roedd cysyniad aelod o'r teulu wedi arwain at y gwyn. Er na chafodd y gwyn ei chadarnhau, roedd y rheolwr wedi trafod gydag aelodau o'r tîm sut y gall eu gwaith a'u ffordd gael ei gamddehongli gan aelodau o'r teulu, yn arbennig gydag achosion cymhleth ble mae yna rywfaint o wrthdaro.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Yn ystod 23/24 roedd Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd wedi derbyn 71 canmoliaeth (73 y llynedd) a Gwasanaethau Plant wedi derbyn 42 canmoliaeth (74 y llynedd). Byddwn yn ceisio ymchwilio'r newid yn lefel y ganmoliaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant i weld ai digwyddiad untro yw hwn neu a oes yna batrwm.

Mae cael adborth positif gan ein dinasyddion yn rhoi boddhad i staff a hwb i'w hysbryd ac yn ein galluogi i nodi arfer gorau, fydd wedyn yn cael ei rannu â thimau neu wasanaethau eraill ac yn benodol o ran cartrefi gofal, yn cael ei rannu gyda'n darparwyr annibynnol hefyd. Mae enghreifftiau o'r ganmoliaeth a gafwyd yn cynnwys;

**Enghreifftiau o ganmoliaeth a dderbyniwyd;**

**Cartref Gofal Cysgod y Gaer**

Dywedodd Sian nad oes diwrnod yn mynd heibio nad yw hi'n ddiolchgar bod ei thad yn byw yng Nghysgod y Gaer. Dywedodd ei fod yn gartref gwych ac yn le perffaith i'w thad. Dywedodd Sian fod y ffaith fod llawer o Gymraeg o fewn y cartref yn dda i'w thad gan mai dyna yw ei iaith gyntaf. Mae'n adnabod ambell un arall o'r dynion sy'n byw yno ac maent yn treulio eu hamser yn y lolfa yng nghwmni ei gilydd. Dywedodd ei bod wedi sylwi bod ei thad yn rhyngweithio llawer mwy - mae ganddo lawer i sgwrsio amdano'r dyddiau hyn pan mae'n ymweld ag ef o'i gymharu â phan oedd yn byw adref. Dywedodd Sian nad yw'n gallu canmol digon ar y staff, maent i gyd yn wych ac mae'n teimlo fod ei thad yn derbyn gofal hynod a'u bod bob amser yn derbyn croeso pan fyddant yn ymweld.

**Annibynniaeth yn y Cartref [Ailalluogi]**

Mae Mrs T wedi ei hatgyfeirio i glinig cwympiadau er mwyn cerdded yn well ac roedd y tîm Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn helpu gyda'r cymorth cerdded. O ganlyniad i gymorth y tîm, mae Mrs T yn gallu symud yn well ac yn mynd allan eto ar ôl 3 mis dan do yn ystod covid. Dymuna Mrs T ddiolch i'r tîm sydd wedi ei chefnogi i gerdded eto.

**Tîm Adnoddau Cymunedol**

'Roeddwn i eisiau ysgrifennu i ddiolch i chi a'r tîm am yr holl gymorth gyda fy ewythr. Mae ef a fy chwaer a minnau yn gwerthfawrogi yn fawr iawn.

Mae’r system gofal i gyd yn newydd i ni ac rydym wedi bod yno’n gyson i ateb ein cwestiynau a darparu gwybodaeth berthnasol yn ystod pob cam’.

‘Roedd y cymorth a’r gefnogaeth wedi creu argraff ar fy ngŵr a minnau wrth drefnu gofal i fy mam ynghyfraith ym Mhrestatyn. Roedd yn amser anodd ac roedd X yn wych.Rydym eisiau diolch i X am fod mor glên gyda fy mam ynghyfraith a’i hamynedd gyda hi. Roedd yn golygu llawer i ni ac rydym wirioneddol yn gwerthfawrogi ei chymorth.’

**Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol**

‘Helo, rwyf newydd dderbyn galwad ffôn gan ŵr Mrs N, sydd wedi dweud diolch yn fawr iawn am bopeth rydym wedi’i wneud i’w wraig ac mae’n ei werthfawrogi’n fawr iawn.’

**Gwasanaethau Plant**

‘Gwerthfawrogir eich cyngor a’ch cefnogaeth bob amser’ - canmoliaeth am Swyddog Gwybodaeth, Cyngor a Chefnogaeth yn y Gwasanaeth Porth.

‘Roeddwn yn cadeirio Adolygiad Plant sy’n Derbyn Gofal yn ddiweddar a dywedodd y person ifanc pa mor ddiolchgar oedd am yr holl gefnogaeth mae ei Weithiwr Cymdeithasol wedi ei darparu, yn arbennig ei gyfweliad gyda’r Swyddfa Gartref mewn perthynas â’i gais am loches’ - canmoliaeth gan Swyddog Diogelu ac Adolygu Annibynnol (ISRO) am Weithiwr Cymdeithasol yn y Gwasanaeth 14+.

‘Rwy’n ysgrifennu i rannu adborth cadarnhaol ynglŷn â’ch Gweithiwr Cymdeithasol sydd newydd ei recriwtio am safon yr Adroddiad Amddiffyn Plant (AP) a pha mor gadarnhaol y bu yn ymgysylltu â’r rhieni. Roedd yn amlwg o’u hadborth eu bod yn teimlo eu byd yn cael eu cefnogi ac yn hapus i ymgysylltu â hi’ - adborth gan y Rheolwr Gwasanaeth Diogelu ac Ansawdd Ymarfer am Weithiwr Cymdeithasol yn y Gwasanaeth Derbyn ac Ymyrraeth.

Diolch yn fawr iawn i chi am eich amser, mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn cael siarad gyda rhywun.
Rwyf hefyd eisiau dweud wrthych eich bod yn gwneud gwaith anhygoel. Rydych yn amlwg yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau llawer o blant a’u teuluoedd. Nid yw’n hawdd ond mae pobl fel chi yn gwneud y byd yn le gwell - neges whatsapp gan fam i’r Cyfeiriwr Lles Anabledd.

Roedd y Gweithiwr Cefnogi bob amser yno i mi a fy mab pan oeddem mewn anhawster a bob amser yn fy helpu i'w ddatrys. Rwyf bob amser wedi bod yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth ac rwy'n dymuno diolch i'r Gweithiwr Cefnogi o waelod fy nghalon. Maent bob amser wedi bod yn dda gyda mi - gan riant ynglŷn â'u Gweithiwr Cefnogi Teuluoedd.

## 4. Hyrwyddo a gwella lles y bobl yr ydym yn eu cefnogi

### a) Gweithio gyda phobl i ddiffinio a chyd-gynhyrchu canlyniadau lles personol y mae pobl yn dymuno eu cyflawni

**Dyma'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Adolygu'r ddarpariaeth gofal a chefnogaeth a ddarperir ar draws y sir yn unol â Rhaglen Ailgydbwyso Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru
- Parhau i ymgorffori Cyfathrebu ar y Cyd ar draws Gwasanaethau Oedolion, Plant a'r Blynyddoedd Cynnar

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Roedd gan 2000 o oedolion gynllun gofal a chymorth ar waith yn ystod y flwyddyn hon. Mae hyn i lawr 2059 o oedolion yn 2022-23. Yn 2022-2023 roedd mwy o oedolion yn cael eu hasesu angen cynllun gofal a chefnogaeth oherwydd cynnydd yn y galw ac anghenion mwy cymhleth dinasyddion. Mae hyn bellach wedi lefelu. |
| Cwblhawyd 65% o asesiadau ar gyfer plant o fewn amserlenni statudol. Mae hyn o dan y 76.7% yn 2022-23 ac mae'n adlewyrchiad o bwysau staffio parhaus. Er y cynhaliwyd llai o asesiadau plant yn 2023-24, 517 o'i gymharu â 983 yn 2022/23 mae yna fwy o gymhlethdod yn amlwg o fewn asesiadau. |

**Oedolion**

Drwy ein gwaith gyda dinasyddion bregus, eu teuluoedd a'u gofalwyr, rydym yn sylweddoli fod y bobl rydym yn eu cefnogi eisiau bywyd nid gwasanaeth yn unig. Felly, rydym wedi datblygu dull sydd wedi'i lywio gan ein hymrwymiad i ymarfer ar sail tystiolaeth a chefnogaeth gan y gymuned. Mae'n anelu i gynyddu gwytnwch cymunedol drwy harneisio egni a thalentau pobl i ddod o hyd i ffyrdd effeithiol ac effeithlon o ddarparu cefnogaeth gofal.

Rydym wedi disodli hen dulliau traddodiadol i gynllunio gofal ac asesu oedd yn tueddu i ganolbwyntio ar broblemau gyda 'thrafodaethau da' sy'n canolbwyntio ar yr hyn sydd o bwys i bobl a'r deilliannau maent yn dymuno eu cyflawni. Mae ein dull seiliedig ar gryfderau yn pwysleisio gwytnwch pobl, dyfeisgarwch a dymuniad i fyw yn annibynnol, yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd ag y gallan nhw.

Mae'n cefnogi eu hawl i nodi a chyflawni amcanion a dyheadau sy'n bwysig iddyn nhw ac yn cynnwys dinasyddion, teuluoedd a gofalwyr di-dâl fel partneriaid cyfartal.

Mae gofal a chefnogaeth a ariannwyd gan y Cyngor yn rôl bwysig i helpu dinasyddion, teuluoedd a gofalwyr di-dâl gyflawni'r deilliannau sydd o bwys iddyn nhw, ond mae ein dull yn eu galluogi i gael budd o ystod llawer mwy o adnoddau yn y gymuned sy'n cyfannu ac weithiau yn disodli ffurfiau traddodiadol o ofal a chefnogaeth.

**Astudiaeth achos**

Cafodd Gethin ei atgyfeirio i'r Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC) yn dilyn codwm tra allan yn siopa, wnaeth achosi toriad difrifol a cholli symudiad yn ei brif fraich dde.

Roedd y TAC wedi trefnu i Therapydd Galwedigaethol ymweld â Gethin yn ei gartref, yna darparwyd cymhorthion ac offer i'w alluogi i aros yn annibynnol ac yn ddiogel yn ei gartref ei hun.

Mae Gethin yn ŵr balch ac roedd yn ei chael hi'n anodd adref ond gwrthododd gefnogaeth ar y dechrau gan ei fod yn teimlo cywilydd i feddwl y byddai ei angen. Mae Gethin yn dibynnu'n fawr ar gefnogaeth gan ei deulu ar hyn o bryd, nid yw yr un ohonynt yn byw yn lleol.

Atgyfeiriodd y TAC Gethin i'n Cyfeiriwr Cymunedol wnaeth drefnu i'w gyfarfod yn ei gartref. Dywedodd Gethin ei fod yn teimlo'n isel iawn ac roedd yn ymwybodol fod ei deulu yn gynyddol bryderus am lefel y gefnogaeth yr oedd ei hangen. Roedd y teulu yn cefnogi Gethin gyda siopa, glanhau, golchi, paratoi bwyd ac ymweliadau i beiriant arian lleol.

Dywedodd Gethin nad oedd yn dymuno bod yn faich ar ei deulu gan ei fod yn teimlo y byddai'r straen arnyn nhw yn effeithio ar eu perthynas. Siaradodd y Cyfeiriwr Cymunedol gyda Gethin am amrywiol ddewisiadau amgen gan gynnwys Micro-ddarparwyr.

Dywedodd Gethin y byddai ganddo ddiddordeb mewn archwilio hyn ymhellach, felly trefnodd y Cyfeiriwr Cymunedol i Ficro-ddarparwyr ymweld â Gethin yn ei gartref.

Roedd Gethin a’r Cyfeiriwr Cymunedol wedi archwilio atebion eraill gan gynnwys siopa gartref ac ailddechrau ymarfer corff, roedd y rhain yn apelio i Gethin oedd yn meddwl y byddent yn helpu gyda’i les meddyliol a chorfforol.

Roedd y Cyfeiriwr Cymunedol wedi cysylltu â’r Tîm Adnoddau Cymunedol a threfnu i Gethin gael iPad a rhyngddynt roeddent wedi lawrlwytho apiau perthnasol a chreu cyfrif siopa gyda Sainsbury’s, ble roedd yn well gan Gethin wneud ei siopa wythnosol.

Drwy gynnwys Gethin mewn ‘sgwrs dda’, cefnogodd y TAC, Cyfeiriwr Cymunedol a Meicro-ddarparwr ef i nodi’r deilliannau sydd o bwys iddo ef, a chael mynediad i’r gefnogaeth mae’n gredu sy’n cwrdd â’i anghenion orau.

**Pobl â phroblemau iechyd corfforol**

Mae ein Un Pwynt Mynediad wedi dod yn ffynhonnell bwysig o wybodaeth, cymorth a chyngor i bobl ar draws Sir Ddinbych ac yn aml mae’n helpu dinasyddion sydd wedi methu cael cefnogaeth yn unman arall.

Ffoniodd Bethan yr Un Pwynt Mynediad, roedd hi’n ofidus iawn ac yn dweud nad oedd yn gwybod lle arall i droi. Roedd wedi derbyn llawdriniaeth ar asgwrn ei chefn yn ddiweddar ac roedd yn ei chael hi’n anodd ymdopi adref. Dywedodd ei bod wedi ffonio nifer o sefydliadau, ond roedd pob un wedi gwrthod cynnig cefnogaeth ‘heb atgyfeiriad’ ac nid oedd yr un yn fodlon cynnig cymorth na chyngor. Roedd gofid sylweddol Bethan angen galwad hir gyda’r gweithiwr Un Pwynt Mynediad, yn gyntaf i’w thawelu ac i’w sicrhau ac yna i ddeall ei hanghenion. Cwblhaodd y gweithiwr Un Pwynt Mynediad asesiad Bethan a gwnaeth nifer o alwadau ac atgyfeiriadau i asiantaethau perthnasol. Hefyd, cadwodd mewn cysylltiad gyda Bethan dros y dyddiau a’r wythnosau nesaf i’w sicrhau bod yna gefnogaeth ar y ffordd.

Ysgrifennodd Bethan nifer o negeseuon e-bost i’r gweithiwr Un Pwynt Mynediad wedyn i ddiolch iddi ac i roi diweddariad ar ei chynnydd, roedd ei sylwadau yn cynnwys;

- Ers i ni siarad, mae Therapydd Galwedigaethol (ThG) wedi cysylltu â mi ac wedi darparu’r offer rwyf ei angen i fy nghynorthwyo a chynnal fy urddas.
- Ni all geiriau fynegi fy niolch am yr empathi a’r camau a gymerwyd.

- Rwyf ar fy mhen fy hun, rwy’n teimlo’n isel iawn ac wedi cael fy ngadael.
- Oherwydd eich camau, rwyf wedi gwella yn llawer cynt a gyda pharch, y cyfan oherwydd eich bod wedi gwir ddeall fy anobaith ac wedi mynd y filltir ychwanegol i fy helpu yn fy awr o angen.
- Rwy’n siŵr na fyddwch yn gwerthfawrogi’n llwyr gymaint yr ydych wedi fy helpu, ond gallaf ddweud, heb eich cymorth chi, ni fyddwn wedi gwella cystal, yn gorfforol ac yn feddyliol!!
- Diolch o waelod calon i chi!!

Nid yn unig roedd y gweithiwr Un Pwynt Mynediad yn sicrhau bod Bethan yn cael y gefnogaeth mae ei hangen i wella’n sydyn roedd hefyd wedi gostwng yn sylweddol faint o gefnogaeth a ariannwyd roedd ei hangen gan y GIG a’r Cyngor yn sylweddol.

**Pobl ag anableddau cymhleth**

Mae’r gwasanaeth anableddau cymhleth wedi defnyddio cyllid Trawsnewid Rhanbarthol i gyflogi Cydlynydd sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a’i rôl yw gweithio gyda dinasyddion, teuluoedd a darparwyr gofal i ddatblygu a gweithredu ‘Cynllunio sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn’.

Mae Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn defnyddio ystod o ddulliau neu ‘adnoddau cynllunio sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn’ sy’n sicrhau bod dinasyddion gydag Anableddau Dysgu a’u teuluoedd yn cyfrannu’n llawn at y broses gynllunio a bod cynlluniau yn adlewyrchu’r anghenion, dymuniadau a dyheadau cynnwys dinasyddion yn llawn.

Mae Heledd yn ferch ifanc gyda diagnosis Awtistiaeth, sy’n byw gyda’i mam. Mae Heledd yn ei chael hi’n anodd iawn gadael y tŷ ac mae’n dioddef arwahanrwydd cymdeithasol.

Cafodd Heledd ei chyfeirio i’r Cydlynydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn wnaeth ei chefnogi i ddatblygu ei chynllun canolbwyntio ar yr unigolyn ei hun. Yn ystod y broses gynllunio rhannodd Heledd ei dymuniad i adael ei chartref a datblygu ei hyder mewn sefyllfaoedd cymdeithasol. Mae Heledd bellach yn derbyn Taliad Uniongyrchol mae’n ei ddefnyddio ar gyfer llogi Cynorthwy-ydd Personol sy’n ei chefnogi i adael ei chartref ac mae hi bellach yn fwy hyderus mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Cyn cyfraniad y Cydlynydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, roedd Heledd yn ddibynnol iawn ar ei mam. Roedd hyn yn effeithio ar les ei mam ac yn bygwth ei gallu i barhau i weithio.

**Gofalwyr**

Mae Dinbych yn cynnwys poblogaeth o bron 96,000 o bobl ac amcangyfrifir bod tua 11,000 o’r bobl hyn yn darparu gofal di-dâl i oedolyn sy’n berthynas neu’n ffrind. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod gofalwyr di-dâl bellach yn gofalu am gyfnod hwy ac yn aml i bobl gyda chyflyrau cymhleth, sydd angen iddynt ddysgu sgiliau newydd gan gynnwys rheoli meddyginiaeth.

Ffordd bwysig o gefnogi gofalwyr di-dâl yw sicrhau eu bod yn cael seibiant ystyrlon; oedd yn arfer cael ei alw yn wasanaeth eistedd neu seibiant, rydym yn gweithio gyda dinasyddion a gofalwyr i archwilio ffyrdd newydd y gall gofalwyr gael seibiant, tra bod y dinesydd yn mwynhau gwneud rhywbeth ystyrlon hefyd.

**Gwasanaethau Plant**

**Cefnogaeth Datblygu Gorchymyn Gwarchodaeth Arbennig a chefnogaeth i gyn Blant sy’n Derbyn Gofal a’u teuluoedd**

Drwy ddefnyddio arian grant gan Lywodraeth Cymru, mae’r Gwasanaethau Addysg a Phlant wedi gwella’r gefnogaeth a gynigir i Warcheidwaid Arbennig, gofalwyr sy’n berthnasau a theuluoedd plant sy’n cael gofal ffurfiol. Mae’r tîm bellach wedi’i ymgorffori o fewn y gwasanaeth ac wedi gweld cynnydd mewn plant sy’n destun GGA yn hytrach na pharhau i dderbyn gofal, mae’r teimlad hwn o sefydlogrwydd yn gadarnhaol i blant a’u gofalwyr. Mae’r tîm yn cyflwyno cardiau gwybodaeth GGA i gynorthwyo gofalwyr GGA yn rhyngweithio, mae’r cardiau yn rhoi gwybodaeth ynglŷn â GGA i weithwyr proffesiynol a gofalwyr.



# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

**Gweithgareddau Maethu Cymru Sir Ddinbych 2023/24**

Mae'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi dod at ei gilydd i ffurfio rhwydwaith cenedlaethol o arbenigedd maethu lleol a elwir yn **Maethu Cymru / Foster Wales.** Gyda ffocws clir i wneud mwy o wahaniaeth ar lefel genedlaethol, i weithio gyda'i gilydd a gyda Gofalwyr Maeth rydym yn anelu i ddatblygu dyfodol gwell i blant lleol.

Oherwydd cyllid gan Maethu Cymru, mae Sir Ddinbych wedi gallu recriwtio swyddog recriwtio a marchnata llawn amser i ganolbwyntio ar recriwtio Gofalwyr Maeth lleol.

Ym mis Tachwedd, roedd blog wedi'i gynnwys ar ein gwefan Maethu Cymru Sir Ddinbych mewn cydweithrediad â Gofalwr Maeth Sir Ddinbych oedd yn maethu pobl ifanc, i amlygu'r pwysigrwydd o amgylch y cysyniad o bobl ifanc mewn gofal, gwnaeth yn dda iawn a nodwyd ar S4C, mae gennym rywun yn cael ei asesu ar hyn o bryd o ganlyniad i'r blog.

Mae ein polisi ystyriol o faethu yn mynd drwy broses gymeradwyo, ar ôl ei gymeradwyo bydd yn ein cydnabod gydag awdurdodau lleol eraill ac yn rhoi hyblygrwydd i unrhyw un sy'n gweithio i Gyngor Sir Ddinbych a maethu gydag Awdurdod Maethu Cymru.

Rydym wedi rhwydweithio gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac wedi cynnal 3 digwyddiad recriwtio yn Ysbyty Glan Clwyd. Roedd hyn wedi creu llawer o ddiddordeb.

Mae Maethu Cymru Sir Ddinbych bellach ar y cyfryngau cymdeithasol ac rydym wedi defnyddio hyn i ledaenu'r neges am bwysigrwydd maethu plant lleol.

Mae Maethu Cymru Sir Ddinbych wedi uno gydag amrywiol glybiau chwaraeon ar draws Sir Ddinbych gan gynnwys Clwb Pêl-droed Dinbych a Chlwb Pêl-droed y Rhyl i ffurfio perthynas agos gyda chymunedau a noddi clybiau lleol.

**Cyfathrebu Cydweithredol -** Mae Sir Ddinbych yn parhau i fuddsoddi mewn Cyfathrebu Cydweithredol. Y nod yw cyflawni darpariaeth gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n gweithio mewn partneriaeth â phlant a theuluoedd ble mae canlyniadau personol yn cael eu harchwilio i oresgyn heriau bywyd amrywiol. Mae Cyfathrebu Cydweithredol hefyd yn gwella'r gweithlu presennol ac yn buddsoddi ynddo drwy ddatblygu mentoriaid a hyfforddwyr fel bod Cyfathrebu Cydweithredol yn cael ei ymgorffori i arferion. Mae'n canolbwyntio ar gyfres o sgyrsiau medrus, meddylgar gyda'r nod o ddatrys cyfyng-gyngor y defnyddiwr gwasanaeth.

Wrth wraidd y model mae cydweithio i sefydlu canlyniadau cynaliadwy wrth wneud y mwyaf o ymreolaeth, annibyniaeth a chryfderau. Mae Cyfathrebu Cydweithredol yn sylwi ar bobl oherwydd y problemau maent yn eu hwynebu ac nid y problemau maent yn eu hachosi; yn sylwi ar yr adnoddau a'r cryfderau sydd gan bobl i oresgyn eu rhwystrau personol ac yn archwilio eu cryfderau, gwerthoedd, gobeithion a dyheadau. Mae'r model Cyfathrebu Cydweithredol o ddarpariaeth gwasanaeth yn anelu i symud oddi wrth y dull traddodiadol o ganolbwyntio ar y broblem gyda chynlluniau sy'n canolbwyntio ar dasg i ddulliau cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a'u rhwydweithiau / teulu tra'n deall hunaniaeth unigryw pob unigolyn a sefyllfa. Nod y model yn y pen draw yw galluogi pobl i fyw bywyd mor llawn â phosibl a chyflawni synnwyr o les.

Mae Cyfathrebu Cydweithredol wedi datblygu nifer o fentoriaid a hyfforddwyr ar draws gwasanaethau plant, oedolion a chymorth buan gyda grwpiau adlewyrchol yn ffurfio pwyslais newid diwylliannol. Mae'r hyfforddiant hefyd wedi'i ddarparu i staff o fewn Gwasanaethau Ieuenctid gyda mwy o wasanaethau ar draws y cyngor yn dangos diddordeb yn y model. Mae dechreuwyr newydd i gyd yn cael sgiliau Cyfathrebu Cydweithredol i sicrhau ei fod wedi ei ymgorffori i ymarfer fel 'Dull Sir Ddinbych'.

**ForMi App** – Yn parhau i gael ei ymgorffori o fewn y Gwasanaeth Therapiwtig. Mae ForMi yn adnodd cofnodi cynllunio a deilliant sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i rai sy'n derbyn cefnogaeth bersonol. Mae'r system yn gwneud i'r cynllunio, gosod amcanion a phroses adolygu ddod yn fyw ac yn rhoi perchnogaeth i'r unigolyn gymaint â phosibl sydd yn ei dro yn eu cymell i gyflawni a datblygu. Mae'n cefnogi sgyrsiau ymgysylltu ble gellir deall yr unigolyn a'u dyheadau ac amcanion a ddatblygwyd sydd wedi eu halinio i'w cryfderau. Gyda chefnogaeth Mentor o'r Gwasanaeth Therapiwtig, mae pob unigolyn yn creu proffil personol seiliedig ar gryfder ac yn nodi amcanion seiliedig ar ddeilliant. Cytunir ar gamau fydd yn cefnogi'r unigolyn i gyflawni ei nod. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu ar y cyd yn rheolaidd, gan gynnwys beirniadu cynnydd yn erbyn pob nod ar raddfa 0 i 10. Yn unigryw, mae'r unigolyn yn nodi eu cyflawniadau drwy eiriau a lluniau ar ffôn glyfar, tebyg iawn i ffrwd newyddion a ddefnyddir ar nifer o apiau cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn arwain at roi grym i'r unigolyn dderbyn perchnogaeth o'u datblygiad a'u cynnydd eu hunain. Ble mae mwy o weithwyr proffesiynol yn cyfrannu at gefnogi'r unigolyn, mae ForMi yn galluogi dull mwy cyfunol drwy eu Cylch Cefnogaeth.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Mae pob unigolyn sy'n ymwneud â Chylch Cefnogaeth y teulu yn gallu gweld sut mae'r unigolyn yn datblygu ac yn rhoi anogaeth, hyfforddiant, adborth a thystiolaeth ychwanegol o gynnydd. Mae ganddynt hefyd fynediad i stori'r unigolyn, gan weld eu cyflawniadau mewn amser real. Mae hyn yn ei dro yn galluogi rhoi cydnabyddiaeth yn barhaus yn hytrach nag ar sail cyfnodol.

**Eiriolaeth Rhiant - Amddiffyn Plant**

Ar gyfer rhieni plant yn yr Arena Amddiffyn Plant, mae Tros Gynnal Plant nawr yn darparu gwasanaeth eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar draws Gogledd Cymru, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar sail mater ac yn canolbwyntio ar ganlyniad. Dros y 3 blynedd nesaf, bydd gan rieni hawl i gefnogaeth mewn cyfarfodydd cysylltiol, gan gynnwys Cynadleddau Achos Amddiffyn Plant Cychwynnol, Cynadleddau Achos Adolygu Amddiffyn Plant a Grwpiau Craidd, gellir gwneud hyd at fwyafswm o dair ymyrraeth ac atgyfeiriad drwy e-bost / dros y ffôn / wyneb yn wyneb naill ai'n uniongyrchol gan rieni neu gan weithwyr proffesiynol ar ôl sicrhau caniatâd y rhiant.

**Cysylltiadau Gydol Oes -** Mae Gwasanaethau Plant wedi ailfuddsoddi yn y rhaglen hon oherwydd llwyddiant y rhaglen hyd yma. Nod Cysylltiadau Gydol Oes yw nodi ac ymgysylltu â pherthnasau ac oedolion cefnogol eraill sy'n gysylltiedig â phlentyn mewn gofal, sy'n barod i wneud ymrwymiad oes i'r plentyn hwnnw.Dengys ymchwil y gall parhad a sefydlogrwydd y perthnasoedd hyn gynnig cefnogaeth barhaus i bobl ifanc, rhoi eglurhad am ddigwyddiadau hanesyddol ac atgyfnerthu eu hunaniaeth a'u synnwyr o berthyn.

Mae'r broses Cysylltiadau Gydol Oes yn rhoi cysylltiadau cefnogol i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc i'r dyfodol. Mae'r broses yn cael ei harwain gan yr unigolyn ifanc, ei rieni a'r Cydlynydd Cysylltiadau Gydol Oes. Fodd bynnag, mae gan y gweithiwr cymdeithasol dynodedig i'r unigolyn ifanc gyfrifoldebau a disgwyliadau penodol yn ystod camau gwahanol y broses Cysylltiadau Gydol Oes.

Os yw'r staff yn ystyried unigolyn ifanc ar gyfer Cysylltiadau Gydol Oes, maent yn gofyn am Ymgynghoriad Therapiwtig gyda'r Gwasanaeth Therapiwtig, i drafod a yw'r atgyfeiriad yn briodol. Os penderfynir bod y broses Cysylltiadau Gydol Oes yn addas i'r unigolyn ifanc, bydd angen cael eu cydsyniad cyn y gellir dyrannu Cydlynydd Cysylltiadau Gydol Oes.

Bydd y gweithiwr cymdeithasol dynodedig a'r cydlynydd Cysylltiadau Gydol Oes yn trafod y broses ymhellach ac yn diffinio'r disgwyliadau. Mae angen cydsyniad pellach gan y sawl sydd â Chyfrifoldeb Rhiant am y plentyn neu unigolyn ifanc, i symud ymlaen i gyfarfod cynllunio a drefnir gan y Cydlynydd Cysylltiadau Gydol Oes a gwahoddir pob gweithiwr proffesiynol arwyddocaol. Mae Cysylltiadau Oes ar fin lansio'n fyw ar dudalen Sir Ddinbych i sicrhau y gall plant a phobl ifanc â phrofiad o ofal hefyd dderbyn y wybodaeth hon a cysylltu â Chysylltiadau Oes Sir Ddinbych.

**Cynhadledd Grŵp Teulu -** Mae'r Gwasanaeth Therapiwtig yn darparu Gwasanaeth Cynhadledd Grŵp Teulu, sef proses dan arweiniad aelodau teulu i gynllunio a gwneud penderfyniadau am blant y mae gweithwyr proffesiynol wedi mynegi pryderon amdanynt ac sy'n cael eu hystyried i fod mewn perygl. Fe all y perygl yma ddod o sawl lle ac fe allai fod yn berygl o niwed sylweddol i'r plant a/neu berygl i'r plant fod angen derbyn gofal neu barhau i dderbyn gofal gan rywun ar wahân i'r teulu ac ati. Nod y broses Cynhadledd Grŵp Teulu yw ychwanegu at gryfderau'r teulu i'w grymuso i ddeall y pryderon ehangach ac os oes angen, cynllunio i gadw eu plant yn ddiogel gyda chymorth gwasanaethau proffesiynol a rhwydweithiau cymunedol. Mae Cynhadledd Grŵp Teulu yn aml yn effeithiol wrth lunio cynlluniau diogel i blant, gan alluogi llawer i aros o fewn rhwydwaith eu teulu fel dewis arall yn lle mynd mewn i ofal neu aros mewn gofal ac mae'r cydlynydd Cynhadledd Grŵp Teulu dynodedig yn parhau'n annibynnol o sefyllfa'r teulu.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

- Adolygu'r ddarpariaeth gofal a chefnogaeth a ddarperir ar draws y sir yn unol ag Ailgydbwyso Gofal Cymdeithasol Llywodraeth Cymru Rydym wedi nodi'r angen i fynd i'r afael â'r materion o fewn gofal cartref yn benodol a chanolbwyntir ar hyn yn 2024 / 25.

## b) Gweithio gyda phobl a phartneriaid i ddiogelu iechyd corfforol a meddyliol pobl a'u lles emosiynol.

**Dyma'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Treialu'r dull Cyffwrdd Dim Ond Unwaith, sy'n gallu gwella bywydau dinasyddion a'u teuluoedd yn y tymor hirach.
- Parhau â'r adolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl yn Sir Ddinbych.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Yn ystod 3 mis olaf 2023 – 2024, roedd 47 o bobl yn profi oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol. Y cyfartaledd dros y flwyddyn gyfan oedd 35. Yn 2022-23, y ffigwr ar gyfer y 3 mis diwethaf oedd 25 o bobl a'r cyfartaledd yn ystod y flwyddyn oed 26. Mae'r cynnydd o ganlyniad yn bennaf i anawsterau dod o hyd i leoliadau gofal cartref a gofal preswyl, i alluogi pobl i adael yr ysbyty yn ddiogel pan fydd ganddynt anghenion gofal a chefnogaeth parhaus - gweler adran A uchod - Dyma'r sy'n rhaid i ni barhau i'w wneud. |
| Oedran cyfartalog oedolion a aeth i gartrefi gofal preswyl yn 2023 - 24 oedd 83. Mae hyn ychydig yn hŷn na'r llynedd pan oedd yr oedran cyfartalog yn 82. |

**Pobl Hŷn**

Mae Troi Dim Ond Unwaith yn drefn gofal personol a ddatblygwyd gan Jo De Clercq, ffisiotherapydd yng Ngwlad Belg ar gyfer unigolion â dementia. Egwyddorion y dull hwn yw bod dinasyddion yn derbyn gofal heb fawr o gyffyrddiad ond un cywir a llawer llai o godi. Mae'n defnyddio menig ymolchi sy'n ymolchi ac yn lleithio'r croen ac yna'n sychu'n naturiol i leihau'r cyffyrddiad â chroen yr unigolyn a dillad addasol i gyflawni hyn.

Fel mae'r enw yn awgrymu, mae'r unigolyn yn cael ei droi ar ei ochr unwaith yn unig yn ystod y drefn ymolchi a gwisgo, eto yn lleihau faint o rholio yn ystod y drefn ofal.

Mae'r dull Troi Dim Ond Unwaith wedi'i gyfuno gyda chefnogaeth ystum 24 awr ac yng Ngwlad Belg mae hyn wedi arwain at nifer sylweddol llai o unigolion yn datblygu anafiadau gwasgedd neu grebachdod.

Mae Troi Dim Ond Unwaith yn gallu cael ei addasu i gefnogi'r dull Symud gydag Urddas sydd eisoes ar waith o fewn Sir Ddinbych - oherwydd y dull sy'n annog arfer gofal personol a gwisgo / dadwisgo gan un person.

Roedd Sara Thelwell, Therapydd Galwedigaethol (ThG) a Dirprwy Rheolwr Tîm wedi ymgeisio a derbyn arian gan y Coleg Brenhinol Therapyddion Galwedigaethol i fynd ar ymweliad addysgol i Wlad Belg, i ddeall sut yn union mae eu dull 24 awr yn cefnogi eu preswylwyr.

Yn 2024-24 bydd Sara yn cynnal prosiect ymchwil bach gyda phreswylwyr yn Sir Ddinbych. Yn ystod y prosiect hwn bydd hi'n gweithio ochr yn ochr â Therapyddion Galwedigaethol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae hwn yn gyfle cyffrous i dreialu dull newydd sydd yn yr hirdymor yn gallu gwella bywydau preswylwyr a'u teuluoedd o fewn Sir Ddinbych.

Cyflwynodd Sara weithdy ar y testun Troi Dim Ond Unwaith yn y Gynhadledd Genedlaethol Gofal Cymdeithasol 2023 yn Venue Cymru, Llandudno ym mis Hydref 2023. Gwnaethom ddangos y technegau ac arddangos yr hoist arbenigol a ddefnyddir gan Jo De Clercq yn y cartref gofal yng Ngwlad Belg ble datblygwyd y dechneg hon yn wreiddiol. Mae Sara hefyd yn derbyn cefnogaeth gan Brifysgol Wrecsam ar gyfer ei phrosiect ymchwil ac yn aros am gymeradwyaeth foeseg ar gyfer yr ymchwil cyn cysylltu â'n cartref preswyl Cysgod y Gaer i dreialu'r dull hwn.

**Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion**

Yn 2023 roedd Tîm Iechyd Meddwl Sir Ddinbych wedi adleoli i eiddo Awdurdod Lleol i ganolbwyntio ar ddatblygu model gwasanaeth fydd yn cyflawni cyfrifoldebau statudol a osodwyd gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, y Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Bydd y rhaglen datblygu gwasanaeth wedi'i halinio'n llwyr gyda'r weledigaeth a'r dyheadau o fewn y Strategaeth Iechyd Meddwl Cymru a'r Strategaeth Hunanladdiad a Hunan-niweidio a bydd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol;

**1. Llais a Rheolaeth**

Bydd dinasyddion a'u gofalwyr yn cael eu cefnogi i gyflawni eu deilliannau lles, gan wasanaeth sy'n hybu llais a rheolaeth pob dinesydd, gan arwain at ofal a gyd-gynhyrchwyd a chynllunio cefnogaeth a chanolbwyntio ar adfer a chyflawni'r annibynniaeth fwyaf.

**2. Partneriaeth.**

Bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cydweithio gyda holl fudd-ddeiliaid, gan gynnwys timau iechyd meddwl cymunedol, ysbytai, darparwyr annibynnol a'r trydydd sector. Bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol gyda holl bartneriaid i sicrhau bod dinasyddion a'u gofalwyr yn derbyn gwasanaeth di-dor i gefnogi eu lles meddyliol.

**3. Seiliedig ar gryfderau.**

Bydd y gwasanaeth yn defnyddio dull seiliedig ar gryfderau i gefnogi dinasyddion i gyflawni a chynnal eu deilliannau lles. Defnyddio olwyn adnoddau Sir Ddinbych i sicrhau bod gofal a chefnogaeth yn canolbwyntio ar gryfderau'r dinesydd ei hun, eu teuluoedd, rhwydweithiau cymdeithasol ac adnoddau cymunedol.

**4. Atal.**

Bydd gan y gwasanaeth ffocws cryf ar atal gyda dinasyddion yn cael eu cefnogi i gael mynediad ac ymgysylltu â gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol ac eilaidd pan fydd angen. Bydd y gwasanaeth yn gweithio'n rhagweithiol gyda dinasyddion a'u gofalwyr i osgoi argyfwng a nodi cefnogaeth briodol i gynnal lles a rheoli heriau.

**Gwasanaethau plant**

**<u>Grwpiau Sgiliau Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT)</u>**

Mae'r Gwasanaeth Therapiwtig wedi bod yn darparu ymyrraeth therapiwtig uchel ei barch, Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT) am bron i chwe blynedd bellach. Mae DBT yn brofiad yn seiliedig ar sgiliau sy'n caniatáu i rieni a gofalwyr ddatblygu sgiliau bywyd craidd sy'n helpu unigolion i reoli emosiynau cryf, rheoli sefyllfaoedd anodd a phrofi perthynas fwy caredig â nhw eu hunain ac eraill. Mae'r grŵp yn cynnwys pedwar set o sgiliau;

- Ymwybyddiaeth Ofalgar (cynyddu hunanymwybyddiaeth i helpu unigolyn i ymdopi);
- Effeithiolrwydd Rhyngbersonol (teimlo'r gallu i gyfathrebu gyda phobl yn fwy effeithiol);
- Rheoli emosiwn (dysgu sut i ddeall emosiynau a sut maent yn effeithio ar ymddygiad)
- Goddef Straen (cynyddu'r gallu i oddef teimladau o ofid ac ymdopi'n well mewn argyfwng).

Gyda'i gilydd, mae'r sgiliau hyn yn ategu at fywyd gwerth ei fyw. Ar gyfer rhieni a gofalwyr sydd o bosibl yn cael trafferth mynychu'r grŵp, gellir cynnig sgiliau DBT 1:1 fel ffordd o ddatblygu eu hyder i ymuno â grŵp yn y dyfodol, yn arbennig gan fod y negeseuon gan fynychwyr yn amlygu natur bwerus cwmni eraill i ddilysu cynnydd a rhwystrau posibl i gydnabod a dathlu cryfderau personol.

Mae'r Gwasanaeth Therapiwtig wedi bod yn llwyddiannus iawn drwy weithio gyda dynion sy'n dadau ac yn ofalwyr ac mae Grŵp DBT i ddynion bellach yn rhan o gynnig y DBT.

**Bwthyn y Ddôl**

Mae’r tîm aml-ddisgyblaeth yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc ar ffin y system ofal ac mewn perygl o dderbyn gofal gan nad yw eu rhiant neu ofalwr, am amrywiaeth o resymau, yn gallu rheoli dynamig teuluol iach. Mae’r tîm yn canolbwyntio i ddechrau ar ffurfio cryfderau ac anawsterau, peryglon ac anghenion yn gyfannol drwy broses ymgynghori, er mwyn argymell rhaglen o ymyraethau.

Datblygwyd y model gofal drwy dîm amlasiantaeth gyda phwyslais ar ofynion ac anghenion arbennig plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych a Chonwy. Mae’r dull arloesol hwn o lunio model gofal sy’n seiliedig ar dystiolaeth, ynghyd â’r ymarfer myfyriol a fabwysiadwyd gan y tîm, eisoes wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol pan fo’r plant / pobl ifanc yn cwblhau'r ymyrraeth yn llwyddiannus ac yn aros yn eu cartref gyda theulu’n ddiogel.

Yn 23/24 roedd AGC wedi cofrestru cam 1 Bwthyn y Ddôl, datrysiad preswyl interim ar gyfer defnydd tra mae’r brif ganolfan asesu yn cael ei hadeiladu. Mae hyn wedi caniatau ar gyfer recriwtio’r tîm o staff preswyl a galluogi’r tîm aml-ddisgyblaethol i gynnwys arhosiad preswyl fel rhan o’u gwaith.

Mae gwaith adeiladu’r prif Ganolfan Asesu Bwthyn y Ddôl yn gwneud cynnydd da ac amcangyfrifir y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau ynghynt. Mae’r tri phartner wedi cynnal ymweliadau safle gydag adborth cadarnhaol o ran dyluniad yr adeilad.






**Gwasanaeth Barnardo's i Rai sy'n Gadael Gofal**

Yn 2023 gwnaethom hysbysu Gwasanaeth Barnardo's i Rai sy'n Gadael Gofal (Ymgynghorwyr Personol) y byddai'r contract i'r gwasanaeth hwn yn dod i ben yn naturiol ym mis Mawrth 2024 ac y byddai'r gwasanaeth yn symud i ddarpariaeth fewnol. Roedd Barnardo's wedi gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth hwn i sicrhau trosglwyddo di-dor i alluogi staff cymwys i Drosglwyddo Ymgymeriadau Diogelu Cyflogaeth (TUPE) i Gyngor Sir Ddinbych. Roedd y trosglwyddiad yn llwyddiannus a dechreuodd y gwasanaeth PA newydd ar 1 Ebrill 2024.

**Gofalwyr**

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

- Parhau i weithredu'r Rhaglen Datblygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl.
- Ymgorffori'r Gwasanaeth Rhai sy'n Gadael Gofal i'n gwasanaethau mewnol yn llwyr ar ôl trosglwyddo o Barnardo's.

## c) Amddiffyn a diogelu pobl rhag camdriniaeth, esgeulustod neu niwed

**Dyma'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Parhau i weithio gyda phartneriaid i sefydlu Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol
- Parhau i adolygu a monitro'r arferion a phrosesau yn y Porth Gwasanaethau Plant

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Cwblhawyd 98.5% o holl ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn yr amserlenni statudol. Mae hyn ychydig yn llai o'i gymharu â'r llynedd. |
| • O'r plant hynny a oedd wedi'u cynnwys ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn gasglu, y nifer a oedd wedi'u cofrestru'n flaenorol dan unrhyw gategori, ar unrhyw bryd yn ystod y deuddeg mis oedd 7. Roedd yna 4 o blant yn y grŵp hwn yn 22/23 a 3 yn y grŵp hwn yn 21/22. |
| • Cyfanswm y dyddiau ar y gofrestr amddiffyn plant ar gyfer plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr yn ystod y flwyddyn oedd 28,055 (27,354 diwrnod yn 22/23 a 28,281 diwrnod yn 21/22). |

- Cyfanswm y plant a dynnwyd oddi ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn oedd 77 (82 o blant yn 21/22).
- Mae hyn yn rhoi cyfartaledd o 351 diwrnod y plentyn (355 diwrnod yn 22/23).
- Mae hyn yn ostyngiad o 5 diwrnod ers y flwyddyn flaenorol (roedd yna gynnydd o 10 diwrnod yn 22/23).

**Gwasanaethau Pobl Hŷn**

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau wedi atal gweithredu'r Trefniadau Amddiffyn Rhyddid am y tro. Felly, rydym yn parhau i weithio dan y ddeddfwriaeth bresennol ac yn cwblhau Safonau Diogelu Rhag Colli Rhyddid fel bo angen.

Mae cydweithio wedi parhau rhwng ein timau Contractau a Chomisiynu a Diogelu gyda darparwyr, Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a phartneriaid allweddol eraill i ddiogelu holl ddinasyddion sy'n derbyn gofal a chefnogaeth gan ein gwasanaethau comisiynu. Roedd Diogelu a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLs) yn destun trafodaeth mewn fforwm darparwyr diweddar a chafwyd ymateb da.

Cafodd brîff 7 munud gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ar Ddiogelu a Gofalwyr Anffurfiol hefyd ei rannu gyda phartneriaid a rhwydweithiau gofalwyr.

Cynhelir Adolygiadau Ymarfer Diogelu Oedolion ar ran Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru. Maent yn ddull sy'n caniatau pob asiantaeth partner i nodi'r gwersi y gellir eu dysgu o'r achosion Diogelu Oedolion arbennig o gymhleth neu anodd a gweithredu newidiadau i wella gwasanaethau yn sgil y gwersi hyn. Mae Adolygiadau Ymarfer Oedolion yn cael eu rhannu gyda'r timau gweithredol ac yn cael eu defnyddio fel cyfleoedd dysgu a myfyrio ar gyfer yr ymarferwyr.

Mae dolenni i adnoddau diogelu gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn cael eu darparu ar ein gwefan. Yn ogystal, mae gan holl staff gweithredol fynediad i hyfforddiant ac adnoddau ar-lein drwy Community Care Inform.

Mae'r tîm Diogelu yn gweithio gyda thimau eraill o fewn Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd i ddarparu sesiynau Cwestiwn ac Ateb i hybu ymwybyddiaeth a chydymffurfiaeth o amgylch Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Mae'r Grŵp Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn cyflwyno bwletin SWAY rheolaidd sy'n rhannu gwybodaeth a ddyluniwyd i amddiffyn / diogelu / o fudd i bobl hŷn.

Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi trefnu hyfforddiant gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol am destunau perthnasol, fel dioddefwyr gwrywaidd camdriniaeth ddomestig a chaethwasiaeth fodern.

Mae llawer o hyfforddiant wedi'i ddarparu dros y 12 mis diwethaf sy'n ymwneud ag ystod o faterion diogelu;

- Cafodd 13 sesiwn o'r cwrs 'Diogelu Sylfaenol Cymru Gyfan' eu darparu gan Y Bont a mynychwyd gan staff mewnol a darparwyr allanol.
- 6 sesiwn hyfforddiant 'Gofyn a Gweithredu' wedi eu darparu gan STORI Cymru a mynychwyd gan y sawl yn y categori Grŵp 2 o'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- 2 sesiwn ar 'Gyflwyniad i'r Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 a darparwyr' yn benodol ar gyfer Rheolwyr Darparu Gofal.
- 1 sesiwn ar 'MCA a chaniatâd' i gynyddu dealltwriaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yng nghyd-destun diogelu ac effaith camdriniaeth ar wneud penderfyniadau gan yr oedolyn mewn perygl - cysylltwyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru gyfan.
- 1 sesiwn ar y 'Ddeddf Galluedd Meddyliol ac agosatrwydd rhywiol' oedd yn rhoi dealltwriaeth o'r ffordd y mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn berthnasol a sut y caiff ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd lle mae pryderon am allu unigolyn i wneud penderfyniadau rhywiol.
- 3 sesiwn ar 'Ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol' wedi eu darparu i Weithwyr Gofal Cymdeithasol mewnol ac allanol. Roedd 19 o weithwyr gofal cymdeithasol wedi llwyddo i gwblhau'r modiwl ymwybyddiaeth o'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ar y platfform Gofal Cymdeithasol.
- 1 sesiwn ar 'Benderfynu ar Alluedd Meddyliol' i Weithwyr Cymdeithasol ddatblygu hyder ymarferydd i benderfynu a yw unigolyn yn gallu gwneud amrywiol benderfyniadau o dan y ddeddf.
- Roedd 30 gweithiwr gofal cymdeithasol wedi cofrestru ar y cwrs Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid ar Social Care TV - 27 wedi cwblhau'n llwyddiannus.
- Cynhaliwyd 2 weithdy gyda Darparwyr i gynnig cyngor, arweiniad a chefnogaeth bellach ynglŷn â'r safonau Diogelu, Dysgu a Datblygu Cenedlaethol.

**Gwasanaethau plant**

Fel rhan o wythnos diogelu, mae aelodau o staff Cyngor Sir Ddinbych yn y Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Digartrefedd wedi cymryd rhan mewn sesiynau Realiti Rhithwir unigryw er mwyn trochi eu hunain mewn meysydd fel trawma a diogelu.





Trwy ddechrau ar daith trwy Realiti Rhithwir, bydd ymarferwyr yn profi cyfres o ffilmiau Realiti Rhithwir gan ddilyn bywydau plant a phobl ifanc yn agos o'r cyfnod cyn geni at y glasoed, gan eu helpu i gael dealltwriaeth well o feysydd fel trawma ac esgeulustod a sut gallai hyn gael effaith ar eu bywyd yn nes ymlaen.

Mae'r dechnoleg hon yn caniatáu amgylchedd dysgu sy'n trochi a helpu i hyrwyddo dysgu a datblygu, gan gryfhau empathi a chanolbwyntio ar ganlyniadau unigol.

Defnyddir yr hyfforddiant Realiti Rhithwir fel adnodd ymyrraeth hefyd mewn unrhyw gyd-destun diogelu er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc ac mae'n rhoi safbwynt unigryw i weithwyr proffesiynol, rhieni, gwarcheidwaid neu ddarparwyr gofal o brofiad go iawn rhywun sy'n gweithio i reoli trawma.

Dywedodd Kevin Jarvis, Rheolwr Tîm, Cymorth i Fusnesau: "Mae'r dull unigryw hwn o ddysgu yn seiliedig ar brofiad uniongyrchol o ofal cymdeithasol a'r materion allweddol sy'n wynebu unigolion sydd wedi profi digwyddiadau bywyd trawmatig, ac mae'n boblogaidd gan ymgysylltu pobl a sefydlu fforwm cryf ar gyfer trafodaeth a myfyrdod ar wraidd trawma.

Yn Sir Ddinbych, rydym yn ystyried defnyddio Realiti Rhithwir fel dull blaengar o ddysgu a datblygu a fydd yn ategu ein modelau darparu presennol a hyrwyddo trafodaeth am sut gallwn ni i gyd fod yn fwy ymwybodol o drawma wrth i ni weithio."

Dywedodd Laurel Morgan, Rheolwr y Tîm Therapiwtig: “Mae wedi bod yn ddefnyddiol defnyddio Realiti Rhithwir i wella arfer myfyriol, creu rhagor o fewnwelediad a datblygu ein ffordd o feddwl o ran arfer a gaiff ei lywio gan drawma. Rydym wedi defnyddio Realiti Rhithwir yn y Gwasanaethau Plant, gydag asiantaethau partner a gyda’r teuluoedd yn Sir Ddinbych. Mae wedi bod yn adnodd defnyddiol i hyrwyddo ymgysylltiad a dealltwriaeth.”

Meddai’r Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol: “Mae’n bwysig bod gan ein staff y ddealltwriaeth orau o’u meysydd arbenigol. Bydd yr hyfforddiant Realiti Rhithwir hwn yn gwella gwybodaeth a dealltwriaeth staff ymhellach wrth weithio gydag unigolion mwy diamddiffyn, gan helpu i feithrin ymatebion gwell a mwy deallus.”

**Dysgu o Adolygiad Ymarfer Plant -** Mae yna nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant a Fforymau Ymarfer Aml Asiantaeth yn cael eu cynnal ar draws y rhanbarth gan gynnwys yn Sir Ddinbych. Bydd dysgu o’r Adolygiadau Ymarfer Plant parhaus yn ffurfio rhan o’r hyfforddiant a datblygu ar draws Gwasanaethau Addysg a Phlant yn y dyfodol ac yn cynnwys asiantaethau partner.

Mae Fforymau Ymarfer Amlasiantaeth wedi eu cwblhau ac amlygwyd arfer da. Cafodd prif themâu eu hamlygu, gan gynnwys rhieni yn defnyddio canabis a chwilfrydedd proffesiynol a bydd y rhain yn cael eu trafod mewn Seminarau Dysgu yn y dyfodol. Mae’r themâu hyn hefyd wedi eu nodi mewn Adolygiadau Ymarfer Plant a Fforymau Ymarfer Amlasiantaeth ar draws y rhanbarth.

**Adolygiad Cyd Arolygiaeth o Drefniadau Amddiffyn Plant (JICPA) -** Roedd Sir Ddinbych yn rhan o JICPA ar ddechrau 2023, cytunwyd ar gynllun gweithredu ac mae’n destun monitro gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW). Nodwyd nifer o bwyntiau cadarnhaol o fewn yr adroddiad gan gynnwys perthnasoedd gwaith cadarnhaol ar draws yr asiantaethau partner, arferion diogelu cadarn o fewn Addysg ac ysgolion. Cafodd ymarfer arloesol ei gydnabod o fewn Gwasanaethau Plant, yn ogystal â dulliau seiliedig ar gryfderau o fewn prosesau amddiffyn plant. Roedd meysydd gwelliant yn cynnwys ymatebion cychwynnol i rai atgyfeiriadau, cadw at amserlenni statudol, sefydlu trafodaethau strategaeth cydasiantaeth rheolaidd a chysondeb gwneud penderfyniadau buan. Cafodd effaith sylweddol anawsterau i recriwtio gweithwyr cymdeithasol cymwys a phrofiadol addas ar lwyth achosion ac ymarfer ei gydnabod gan arolygwyr.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Bu gwelliant sylweddol mewn niferoedd llwyth achosion o fewn y gwasanaeth, mae mwy o recriwtio wedi cynorthwyo yn y maes hwn. Mae prosesau archwilio ychwanegol wedi eu cyflwyno i gynorthwyo rheolwyr i fonitro perfformiad, ansawdd a chanlyniadau. Mae sefydlu trafodaethau strategaeth ddyddiol ar amseroedd sefydlog a gydag aelodau o staff cyson wedi caniatau ar gyfer trafodaethau mwy cadarn a chyson a herio ar draws pob asiantaeth. Mae'r Porth wedi bod yn destun cynllun gwella a sicrhawyd gallu rheoli ychwanegol. Er yr amlygwyd gwelliant ar draws sawl maes o fewn JICPA, mae gwaith yn parhau ar draws y gwasanaeth i ymgorffori'r ymarfer hwn. Does dim amheuaeth bod gallu oherwydd mwy o gymhlethdodau mewn atgyfeiriadau ac oherwydd heriau staffio yn effeithio ar gyflymder gwelliannau.

Mae'r broses **Rhestr Wirio Sicrwydd Ansawdd Amddiffyn Plant a Phlant sy'n Derbyn Gofal** wedi'i sefydlu ac yn darparu llawer o wybodaeth er mwyn mapio a chynllunio gweithgaredd gwella a dathlu arfer da.

Cytunwyd a chyflawnwyd nifer o argymhellion yn dilyn dadansoddiad o'r canlyniadau; Paris a gwelliannau gwella, sesiynau hyfforddiant, arolygon adborth adolygiad plant sy'n derbyn gofal a datblygu enghreifftiau o arfer da ac ati. Mae recriwtio i swyddi gwag Swyddog Adolygu Diogelu Annibynnol (ISRO) llwyddiannus o fewn yr Uned Ddiogelu wedi arwain at fwy o restrau gwirio yn cael eu cwblhau ar hyd y flwyddyn.

| Rhestrau Gwirio a Gwblhawyd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Chtr 1** | **Chtr 2** | **Chtr 3** | **Chtr 4** | |
| Plant sy'n Derbyn Gofal | 39 | 42 | 114 | 98 | |
| Amddiffyn Plant | 12 | 13 | 21 | 25 | |
| | | | | | |

Mae'r rhestrau gwirio SA hyn wedi darparu gorolwg archwilio ychwanegol ac wedi cynorthwyo Rheolwyr i dargedu cefnogaeth ar gyfer staff ac ymarfer. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gwaith cadarnhaol a gwblhawyd gan staff a bod hyn yn ffurfio rhan bwysig o'r broses SA.

**Porth Gwasanaethau Plant -** Yn dilyn adborth gan JICPA cafodd mesurau i wella ymarfer a phroses o fewn y Porth eu gweithredu. Cafodd capasiti staff rheoli ychwanegol ei ddyrannu i wella goruchwyliaeth, yn ogystal â gweithio yn y swyddfa, mentora a threfnu a darparu gweithdai dysgu ar gyfer y tîm. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo.

Mae'r **Rhaglen Ar Ymyl Gofal** yn rhan o'r Gwasanaeth Therapiwtig a'i nod yw:

- Cefnogi teuluoedd i fynd i'r afael â'u problemau a gwneud newidiadau cadarnhaol a allai leihau'r risgiau ar gyfer eu plant, yn ogystal â'u helpu i wneud cyfraniad cadarnhaol at y gymuned lle maent yn byw.
- Darparu cefnogaeth ddwys i deuluoedd diamddiffyn gyda phroblemau cymhleth lluosog, lle mae / roedd posibilrwydd cryf y gallai plentyn gael ei roi mewn gofal.
- Galluogi amgylchiadau plentyn i wella a rhoi'r sgiliau teuluol er mwyn iddynt fedru cynnal eu gwelliannau eu hunain.

Mae gan y rhaglen bwyslais cryf ar ddarparu ymyrraeth ddwys yn y cartref i'r teulu cyfan ble ystyrir bod plant 'ar ymyl gofal'. Mae'r Rhaglen 'Ar Ymyl Gofal' hefyd yn darparu ymyrraeth ddwys uchel debyg ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal gan gynnwys y sawl mewn lleoliadau preswyl ble mae'r cynllun iddynt ddychwelyd at eu teulu gwreiddiol neu ofal maeth cyffredinol neu blant sydd wedi cael eu mabwysiadu ble mae angen cefnogaeth sylweddol i atal eu lleoliad rhag pallu. Mae'r rhaglen Ar Ymyl Gofal yn gweithio o fewn model asesu ac ymyrraeth y Tîm Cymorth Integredig i Deuluoedd. Mae'n darparu'r ymyrraeth dros ddim mwy na 12 wythnos gan gyflwyno adnoddau ymarferol byr a meithrin adnoddau cymunedol/ehangach yn defnyddio nodau sy'n canolbwyntio ar ganlyniad sydd wedi eu llunio ar y cyd â'r plentyn / unigolyn ifanc a'i deulu.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

- Ar gyfer 2024/2025 mae Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru wedi cymeradwyo cais Adolygu Ymarfer Oedolion (APR) ac wedi cytuno i gefnogi APR cryno yn Sir Ddinbych. Bydd yr APR yn darparu ffynhonnell ddysgu ar gyfer y sawl dan sylw a rhennir ar gyfer dibenion hyfforddiant ar draws y rhanbarth.
- Bydd gwaith yn parhau i wella arferion o fewn Porth Plant yn unol â'r adborth o'r mesurau JICPA.

## d) Annog a chefnogi pobl i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas

**Dyma'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Parhau i weithio gydag Age Connects a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddod yn Gymuned sy'n Gyfeillgar i Oed. Parhau â datblygiad y cynllun gweithredu fydd yn cael ei gyflwyno gyda'r cais i Sefydliad Iechyd y Byd.

- Parhau i ddatblygu cais gyda Chymunedau Digidol Cymru i sicrhau cyllid i gyflogi staff i helpu preswylwyr ddefnyddio ystod o dechnoleg ddigidol a chael budd ohonynt yn ein cartrefi gofal.
- Sicrhau bod ein darpariaeth teleofal yn barod am y Trosglwyddo Cenedlaethol i Ddigidol yn 2025 oherwydd mae mwyafrif ein hoffer yn addas ar gyfer llinellau ffôn analog yn unig ar hyn o bryd. Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni
- Sefydlu perthnasoedd gwaith agosach gyda Sir Ddinbych yn Gweithio i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant (NEET).
- Gwella'r dewisiadau byw â chymorth yn Sir Ddinbych fel bod mwy o bobl ifanc yn gallu parhau i fyw yn y sir.

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2024, roedd 18 o blant sy'n derbyn gofal wedi profi un neu fwy o newidiadau yn yr ysgol nad oeddent yn ymwneud â threfniadau pontio. Mae hyn yn gynnydd sylweddol o'r 4 yn y flwyddyn gynt. **Dylid nodi y gall newid ysgol fod am resymau cadarnhaol, fel plentyn yn cael ei roi gyda gofalwyr parhaol.**

**Pobl Hŷn**

Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol, gan gynnwys Age Connects a llawer o adrannau o fewn Cyngor Sir Ddinbych i fod yn Gymuned sy'n Gyfeillgar i Oed Parhau â datblygiad y cynllun gweithredu fydd yn cael ei gyflwyno gyda'r cais i Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r Cynghorydd Elen Heaton, ein Haelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi bod yn gefnogol iawn gyda'r gwaith hwn. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd CSDd yn cael ei gydnabod fel cyflogwr cyfeillgar i oed.

Rydym yn parhau i weithio gyda Chymunedau Digidol Cymru a bu'r cais i sicrhau cyllid i gyflogi staff i helpu preswylwyr ddefnyddio ystod o dechnoleg ddigidol a chael budd ohonynt yn ein cartrefi gofal yn llwyddiannus. Mae Cwmpas wedi penodi swyddogion sy'n cynnig cefnogaeth a hyfforddiant ar draws y sir.

Mae'r uwchraddio digidol Teleofal yn mynd yn dda ac ar amser i gwrdd â Dyddiadau Cau Trosglwyddo Cenedlaethol. Mae Grŵp BT wedi cyhoeddi ailosod y dyddiad hwn yn ddiweddar i 31 Ionawr 2027.

Mae hyn yn rhoi 13 mis ychwanegol i ni fudo ein defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel i offer digidol. Rydym yn gallu blaenoriaethu pobl ar gyfer offer digidol newydd wrth iddynt drosglwyddo i linellau ffôn digidol.

Roedd Sir Ddinbych yn Gweithio fel un o aelodau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn cyflwyno i'r grŵp llawn ar gyfleoedd ar gyfer cefnogaeth gwaith i ddinasyddion hŷn. Cafodd hyn ymateb da iawn gan fod llawer o aelodau yn dweud bod argyfwng costau byw wedi cael effaith mawr ar bobl hŷn, gan arwain iddynt deimlo'r angen i ddychwelyd i'r gwaith neu barhau yn y gwaith am gyfnod hwy er gwaethaf pryderon iechyd. Roedd rhai aelodau yn gallu cynnig cyfleoedd gwaith tra bod eraill wedi cysylltu'r sawl maent yn eu cefnogi i Sir Ddinbych yn Gweithio am gymorth a chefnogaeth gyda materion fel datblygu hyder, sgiliau iaith, cynhwysiad digidol a diweddaru sgiliau eraill.

### Pobl ag anableddau cymhleth

Rydym yn parhau i ariannu prosiect Llysgennad Cyflogaeth a Hyfforddwr Swydd peilot ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a ddarperir gan fenter gymdeithasol. Mae ystod o ddulliau wedi eu mabwysiadu i werthuso effeithiolrwydd ac effaith y model, sydd wedi cynnwys gwerthuso economaidd a chomisiynu panel dinesydd oedd yn gweithio ochr yn ochr gyda'r gwerthuswr, gan sicrhau bod lleisiau pobl ag anableddau dysgu yn cael eu clywed yn ystod y broses.

Rydym hefyd yn parhau i gefnogi datblygiad Prosiect SEARCH yn Sir Ddinbych, ac wedi cefnogi rhaglen interniaeth i bobl ifanc ag anableddau dysgu.

Rydym wedi adolygu'r gwasanaeth sy'n darparu cefnogaeth yn ein lleoliadau cyfleoedd gwaith mewnol (darperir gan sefydliad trydydd sector). Cafodd y contract ei ddiweddaru'n sylweddol i adlewyrchu anghenion y gwasanaeth yn well a'r unigolion sy'n cael budd o'r cyfleoedd hyn.

### Gwasanaethau plant

Mae Gwasanaethau Addysg a Phlant yn parhau i gefnogi pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal i gael gafael ar hyfforddiant ac addysg ôl 16 a chynnig cefnogaeth ariannol ac ymarferol i fynychu coleg neu brentisiaethau. Mae pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ac sy'n dewis mynd i'r Brifysgol yn cael cefnogaeth dda, ac mae gwasanaethau'n sicrhau eu bod yn cael gafael ar grantiau a bod ganddynt lety priodol dros fisoedd yr haf.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Sir Ddinbych yn Gweithio i sicrhau bod pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal yn cael mynediad at ystod o gyfleoedd gwaith a hyfforddiant ac yn cael eu cefnogi rhag methu â chael Addysg, Gwaith neu Hyfforddiant (NEET).

**Mentoriaid Cyfoedion Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc**

Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc (GOI) yw'r term a ddefnyddir gennym ar gyfer gofalwyr ifanc sy'n 18 i 25 oed. Gan fod rhai o'n gofalwyr ifanc wedi dod yn oedolion, maent eisiau defnyddio eu profiad a'u gwybodaeth i helpu i gefnogi eu cyfoedion iau drwy wirfoddoli fel mentoriaid cymheiriaid. Mae'r grŵp hwn o bobl ifanc wedi bod yn ddylanwadol i ddatblygu'r diwylliant o ddarparu grwpiau a gweithgareddau a drwy gefnogi gofalwyr ifanc yn yr ysgol fel rhan o'r rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion. Mae'r Gofalwyr hyn sy'n Oedolion Ifanc wedi cyfrannu at hyfforddi myfyrwyr nyrsio o Brifysgol Wrecsam mewn sesiynau yn Llanelwy i godi eu hymwybyddiaeth o'r materion a phrofiad gofalwyr ifanc yn yr arena iechyd. Ar Ddiwrnod Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc, 13 Mawrth 2024, roedd un GOI o Sir Ddinbych yn rhan o alwad zoom grŵp i'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan, i drafod materion o bwys iddyn nhw.

**Rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion**

Mae gofalwyr ifanc yn parhau i ddweud wrthym eu bod yn dymuno i'r ysgol eu deall nhw'n well ac yr hoffent weld ymwybyddiaeth i staff ysgol yn cael ei gyflwyno. Roedd WCD wedi gweithio gyda Youth Friendly, cwmni yng Ngogledd Cymru sy'n anelu i ddefnyddio dylunio, ffilm a chyfathrebu i gyfathrebu gyda a chynnwys plant a phobl ifanc mewn trafodaethau sy'n effeithio ar eu bywydau ac yn rhoi 'llais' iddynt, i greu'r rhaglen 'Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion'. Mae'r rhaglen hon nawr ar gael i bob un o'n hysgolion ei defnyddio drwy'r Hwb Addysg. Mae Ysgol Uwchradd y Rhyl wedi bod yn bartner eithriadol eleni yn cefnogi gofalwyr ifanc i ddatblygu rolau Llysgenhadon Gofalwyr Ifanc, Mentoriaid Cyfoedion a Chefnogwyr yn yr amgylchedd ysgol.

**Gofalwyr**

Cafodd y Cynllun Cyfeillio Gofalwyr (Gwasanaeth Cadw mewn Cysylltiad) ei gynnwys ar gyfer ail-dendro'r prif gontract cyngor Defnyddwyr ac Ariannol corfforaethol, i gadw pethau yn syml a lleihau'r nifer o gontractau ar wahân. Cafodd y contract newydd ei ddyfarnu i Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych.

O dan y cynllun, mae gofalwyr di-dâl yn cael cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth gan NEWCIS a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych (CAB) i'w helpu i leihau effaith negyddol straen ac ynysiad.

Mae cymorth yn cynnwys cyfeillio a chwnsela gan NEWCIS a chynyddu incwm a chyngor ar gyllidebu gan CAB. Mae gofalwyr yn cael cynnig cymorth gyda budd-daliadau, dyled a chostau.

Mae NEWCIS a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn gweithio'n agos gyda darparwyr a phartneriaid eraill e.e. Sir Ddinbych yn Gweithio i helpu gofalwyr di-dâl gael mynediad i gyngor ac arweiniad arbenigol. Mae Llyw-wyr Cymunedol yn cefnogi gofalwyr di-dâl i gael bywyd eu hunain a mynediad i weithgareddau yn eu cymunedau. Mae yna ystod o sefydliadau ar draws Sir Ddinbych sy'n cynnig grwpiau cefnogi a gweithgareddau i ofalwyr.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

- Yn ystod 2024/2025 bydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i benderfynu ar y ffordd orau ymlaen i ddarparu byw â chymorth i bobl ifanc fydd yn atal amhariad ar bwynt trosglwyddo i wasanaethau oedolion.
- Byddwn yn parhau i uwchraddio Offer Teleofal i gwrdd â'r dyddiad terfyn trosglwyddo diwygiedig o analog i ddigidol.
- Bydd y Gymuned sy'n Gyfeillgar i Oed yn parhau â'u gwaith i gyflwyno'r cais i Sefydliad Iechyd y Byd.

## e) Helpu pobl i ddatblygu'n ddiogel a chynnal perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol iach

**Dyma'r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Sicrhau bod mwy o egwyl byr a seibiant ar gael i ofalwyr yn Sir Ddinbych.
- Parhau i roi'r camau gweithredu sydd yn y Cynllun Gweithredu Cyflwr Gofalu ar waith
- Parhau â datblygiad canolfan asesu ranbarthol Bwthyn y Ddôl mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Datblygu gwyliau preswyl byr a darpariaeth gofal brys i blant ag anghenion ac anableddau cymhleth yn Sir Ddinbych.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

**Dyma rydym wedi'i wneud a'i gyflawni**

| |
|---|
| Dychwelodd 13 o blant adref o gartrefi gofal yn ystod y flwyddyn. Ffigwr y llynedd oedd 15 o blant. |
| Ar 31 Mawrth 2024, roedd 19 o blant sy'n derbyn gofal wedi bod mewn tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn. Ffigwr y llynedd oedd 18 o blant. Dylid nodi y gall newidiadau lleoliad gael eu trefnu ac am resymau cadarnhaol, fel symud o leoliad at ofalwyr parhaol. |

**Gofalwyr**

Mae costau byw cynyddol a'r pwysau ar Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn straen ychwanegol a brofir gan ofalwyr di-dâl. Rydym wedi darparu prosiect (mewn partneriaeth gyda NEWCIS a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych) i gynnig cefnogaeth i atal y pwysau ychwanegol ar ofalwyr di-dâl. Y diben yw darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol, adolygiad ariannol a gwirio budd-daliadau i'r gofalwyr hynny sydd mewn perygl o gael eu hynysu a methu parhau i ofalu. Mae yna alw mawr am y gwasanaeth ac ni fodlonir holl anghenion mor amserol â'r disgwyl, oherwydd y rhestr aros barhaus. Mae dewisiadau i gefnogi'r mentrau hyn yn gynaliadwy yn cael eu harchwilio i'w galluogi i barhau yn yr hirdymor.

Mae Aseswyr Gofalwyr yn ailgyflwyno ymweliadau cartref ac yn ailsefydlu perthnasoedd gyda rhai gofalwyr di-dâl Sir Ddinbych drwy fynychu Pwyntiau Siarad. Maen nhw'n atgyfnerthu darpariaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ar y cyd â llyw-wyr cymunedol a sefydliadau eraill sy'n cefnogi gofalwyr. Mae sesiynau Pwyntiau Siarad yn cael ei darparu'n rheolaidd drwy 7 llyfrgell leol ar draws y sir, a'r diben yw cynnig ffordd wahanol i bobl gael mynediad i gymorth a chefnogaeth sydd ar gael.

Yn ogystal, mae Pwyntiau Siarad yn cynnig cyfleoedd i wirfoddoli nid yn unig o fewn Ar Ymyl Gofal ond hefyd o fewn Pwyntiau Siarad eu hunain i gefnogi dinasyddion eraill.

**Pobl hŷn**

Rydym wedi parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Teleofal a'i uwchraddio yn unol â newidiadau technolegol. Mae Teleofal yn fath penodol o dechnoleg gynorthwyol sy'n defnyddio synwyryddion a larymau i gadw pobl yn ddiogel yn eu cartrefi tra'n cynnal annibyniaeth iach, ystyrlon.

Pan fydd larwm yn canu, bydd dinasyddion yn cael eu cysylltu'n gyflym i staff hyfforddedig yn y ganolfan fonitro fydd â'r wybodaeth wrth law ac yn gwybod am y dinesydd a'u hamgylchiadau cyffredinol ar unwaith. Unwaith y bydd y gweithredwr wedi penderfynu pa gymorth sydd ei angen, byddant yn trefnu i rywun ddod draw i helpu. Gallai fod yn aelod o'r teulu, cymydog, meddyg neu'n un o'r gwasanaethau brys. Mae'r gwasanaeth yn rhoi sicrwydd i'r Dinesydd a'r teulu am ddiogelwch.

**Digartrefedd**

Drwy weithio'n agos gyda Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant, mae Tîm Atal Digartrefedd Sir Ddinbych yn parhau i gefnogi pobl hŷn a theuluoedd i atal digartrefedd neu os bydd digartrefedd yn digwydd i sicrhau ein bod yn cymryd camau aml-ddisgyblaethol / aml-wasanaeth i fynd i'r afael â holl faterion a wynebir gan yr unigolyn / teulu.

Rydym wedi parhau gyda Chynllun Ail-gartrefu Cyflym i fuddsoddi mewn cefnogaeth ymyrraeth  fuan ac atal. Yn ystod 2023-24 roeddem wedi gweithredu grŵp cyflawni Cynllun Ailgartrefu Cyflym i sicrhau bod cefnogaeth y cyngor ar draws pob maes yn cefnogi'r gwaith rydym yn ei wneud gyda dinasyddion a'u teuluoedd sy'n wynebu argyfwng fel digartrefedd.

Mae ffrydiau gwaith a dargedwyd yn cynnwys;

- cefnogaeth gofal estynedig aml-ddisgyblaethol i unigolion mewn perygl o neu'n profi digartrefedd;
- gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig partner i ddatblygu dull strategol ar gyfer cyflenwi llety priodol;
- datblygu cynnig i Landlordiaid Sector Rhentu Preifat i gynyddu'r cyflenwad o denantiaethau fforddiadwy a chynaliadwy i ryddhau digartrefedd yn defnyddio Cynllun Prydlesu Cymru.

Ar y pwynt digartrefedd, rydym wedi gweld mai'r rheswm cynyddol aml yw ffrindiau a theulu yn gofyn i bobl adael, gyda chyfuniad o berthynas di-drais wedi chwalu. Mae hyn yn fwy na dwbl yr achosion a achoswyd gan golli llety sector rhentu preifat.

Prif flaenoriaeth o'r data hwn oedd yr angen i addysgu pobl i geisio cymorth mor fuan â phosibl pan fyddant yn ymwybodol y gallai bod yna berthynas yn chwalu o bosibl, neu nad yw ffrindiau a theulu yn gallu eu cefnogi nhw mwyach.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Mae hyn wedi cael ei hwyluso hyd yma drwy'r bartneriaeth Cydfenter Fy Nghartref Sir Ddinbych (ariannwyd drwy Grant Cymorth Tai).

**Gwasanaethau plant**

Ar ôl profi anawsterau, mae'r prosiect i adeiladu'r Ganolfan Asesu Plant newydd, Bwthyn y Ddôl wedi gwneud cynnydd da eleni, ar ôl penodi'r contractwr newydd. Penodwyd Wynne Construction gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) i ddylunio ac adeiladu'r cyfleuster newydd fydd yn gwella mynediad i gefnogaeth i blant ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

Dechreuodd gwaith ar y safle yn yr haf 2023 gyda dymchwel yr adeilad presennol ac ers hynny mae'r gwaith adeiladu wedi gwneud cynnydd da. Mae'r gwaith adeiladu ar amser i'w gwblhau yn yr haf 2024.

Yn ystod eleni, mae Sir Ddinbych, Conwy a'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio gyda'i gilydd i recriwtio tîm aml-ddisgyblaethol sydd eisoes yn gweithio gyda phlant a theuluoedd, yn defnyddio safle dros dro, yn barod ar gyfer agor y ganolfan newydd.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

- Parhau i wella'r profiad egwyl byr ar gyfer mwy o ofalwyr di-dâl a theuluoedd yn Sir Ddinbych.
- Parhau gyda Melinau Trafod Gofalwyr i hybu meddwl yn greadigol ac yn arloesol mewn perthynas ag egwyl pwrpasol i ofalwyr.
- Datblygu Fforwm Cyfoedion Gofalwyr penodol i sicrhau bod pob 'cynnig gofalwr' yn cael y cyfle i gael eu hystyried yn ofalus gan ystod o weithwyr proffesiynol er mwyn hybu dull 'tîm o amgylch y teulu' i gefnogi'r canlyniad gorau i deuluoedd.
- Bydd y Tîm Ar Ffiniau Gofal yn edrych ar ymestyn y cynnig gwirfoddolwr i fwy o ofalwyr yn y dyfodol. Bydd cyfleoedd recriwtio yn canolbwyntio ar y nodweddion penodol a gyflwynir gan unigolion i'r rolau hynod werthfawr a gwerth chweil hyn.
- Cynnig mwy o ddewis gyda rheolaeth, hybu'r nifer o Daliadau Uniongyrchol i ofalwyr.
- Hyrwyddo dull partneriaeth a chefnogi darparwyr gwasanaeth lleol (gan gynnwys y sawl sydd wedi cofrestru i dderbyn talebau Pontio'r Bwlch) i ddatblygu dewisiadau seibiant byr mwy ymatebol, hyblyg a chreadigol. Mae ein dull wedi'i danseilio gan gyfleoedd cyd-gynhyrchu a chreu ar gyfer gofalwyr di-dal i gyfrannu at ddyluniad gwasanaethau.

## f) Gweithio gyda phobl a’u helpu i wella eu lles economaidd, i gael bywyd cymdeithasol a byw mewn llety addas sy’n bodloni eu hanghenion

**Dyma’r hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Comisiynu llety â chymorth arbenigol i bobl ifanc ag anghenion cymhleth, sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn darparu cefnogaeth barhaol i liniaru’r risg o’r unigolyn ifanc yn disgyn i gylched o ddigartrefedd yn y dyfodol.
- Parhau i ddatblygu technoleg yn ein gwasanaethau dydd a gwaith fel bod mwy o bobl ag anableddau cymhleth yn cymryd rhan ac yn ymgysylltu.
- Parhau i weithio mewn partneriaeth a datblygu ffyrdd arloesol o ddenu mwy o bobl ifanc i ofal cymdeithasol fel gyrfa.

**Dyma rydym wedi’i wneud a’i gyflawni**

| |
|---|
| Canran y bobl sy’n gadael gofal yng nghategorïau 2, 3 a 4 sydd wedi bod mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth am 3 mis yn olynol ers gadael gofal oedd 75% yn 2023/24 - 73% yn 2022/23. |
| Cyfanswm y nifer sy’n gadael gofal yng nghategoriau 2, 3 a 4 wnaeth brofi digartrefedd yn ystod y flwyddyn oedd 17% yn 2023/24 - 15% yn 2022/23. |

**Oedolion**

Rhan annatod o’r Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Phlant yw ein Tîm Atal Digartrefedd sy’n gweithio mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i atal a mynd i’r afael â digartrefedd.

Mae ymgysylltu â Gofal Cymdeithasol yn hanfodol i gyflawni ein gallu i atal neu liniaru digartrefedd. Mae dull aml-ddisgyblaethol / aml-dîm yn caniatau i ni ganolbwyntio ar yr adnoddau cywir gyda’r sgiliau a’r profiad mwyaf priodol i helpu unigolion a theuluoedd.

Hyd at ddiwedd Mawrth 2024, roedd yna 188 aelwyd mewn Llety Gwely a Brecwast Brys (gostyngiad o 220 ar y brig ym mis Tachwedd 2023) gyda hyd arhosiad ar gyfartaledd yn 238 diwrnod.

O fewn y Tîm Atal Digartrefedd aml-ddisgyblaethol, rydym yn gweithio i ddarparu cefnogaeth a dargedwyd i ddinasyddion sydd wedi bod mewn llety Gwely a Brecwast am dros 12 mis, i fynd i'r afael ag achosion craidd digartrefedd a chefnogi dinasyddion i gael mynediad a chynnal cartrefi/llety addas.

I gefnogi'r dull hwn, rydym wedi cynyddu ein portffolio o lety ar brydles. Mae gennym 153 aelwyd mewn llety dros dro ar brydles gyda hyd arhosiad ar gyfartaledd o 430 diwrnod.

**Astudiaeth Achos Atal Digartrefedd**

Mae Sean yn ddyn yn ei 50au sy'n profi digartrefedd. Ar ôl i'n gweithwyr cefnogi ddod i adnabod Sean, sylweddolwyd bod rhywfaint o ymddygiad mwy negyddol Sean o ganlyniad iddo fod yn ddiwaith a'i fod wedi diflasu.

Roedd gan Sean brofiad yn y diwydiant gwaith coed ac roedd wedi bod yn berchen ar ei gwmni ei hun, cyn i ddigwyddiadau bywyd olygu nad oedd yn gallu gweithio mwyach. Fodd bynnag, roedd ganddo amheuon am ei allu i gadw swydd.

Roedd yna gyfle gwirfoddoli gyda'r 'Willow Collective' yn y Rhyl ble gallai Sean gymryd rhan mewn rhywfaint o waith coed. Dros ychydig fisoedd roedd Sean wedi cymryd rhan mewn sesiynau ac oherwydd yr holl wybodaeth a ddangosodd; gofynnwyd iddo gynhyrchu mainc bren a fyddai'n ganolbwynt ar gyfer prosiect tai mewn sir gyfagos.



Cynhyrchodd Sean y fainc ac arweiniodd ar gwblhau'r prosiect hwn.

Gwahoddwyd Sean i gyfarfod Prif Weinidog Cymru yn ystod agoriad y prosiect tai.



Mae Sean bellach yn cynnal ei lety ar brydles ei hun ac mae'n mentora cyfranogwyr eraill y prosiect gwirfoddoli.

Mae Tîm Ailgartrefu y DU wedi cefnogi 55 aelwyd ceiswyr lloches i sicrhau, dodrefnu a symud i mewn i lety hirdymor. Mae'r tîm yn cynnal peilot o gynllun cyflogaeth ar gyfer ceiswyr lloches, gweithio gyda phartneriaid mewnol i hybu gofal cymdeithasol fel cyfle gyrfa. Mae hyn wedi arwain at 11 o unigolion yn cymryd rhan mewn profiad gwaith a phump o ganlyniad yn arwain at gyflogaeth contract parhaol. Mae 7 dinesydd arall wedi ymuno â'n cronfa o staff wrth gefn. Rydym yn dyheu i weld 10 o bobl eraill yn cymryd rhan yn y peilot hwn yn ystod 2024/25.

Blaenoriaeth i'r Tîm Datblygu Gweithlu yw ymgysylltu gyda darparwyr, sicrhau eu bod yn ymwybodol o ac yn gallu cymryd mantais o gyfleoedd sy'n canolbwyntio ar recriwtio a chadw staff. Mae'r rhain yn cynnwys hybu gweithgaredd Gofal Cymdeithasol Cymru, ymgyrchoedd 'Gofalwn' ac yn cysylltu â'r Cydlynydd Gofal Rhanbarthol, yn ogystal â chysyltiadau gyda cyflogadwyedd.


# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Rydym yn gweithio gyda lleoliadau Addysg Uwch / Pellach a'n sector darparwr i gynnig lleoliadau gofal cymdeithasol. Mae gennym bellach gysylltiadau wedi eu sefydlu gydag ambell leoliad sy'n fodlon ac yn gallu cynnig cyfleoedd lleoliad.

Mae recriwtio o fewn gofal yn parhau i fod yn her. Yn ystod 2023/24 roeddem yn gallu penodi 22 o bobl o dan 30 oed i rolau gofalu a chefnogi o fewn ein darpariaeth mewnol. Mae hyn yn cymharu ag 19 ar gyfer y flwyddyn gynt. Gyda swyddog Adnoddau Dynol ymroddedig, rydym wedi gallu hybu gofal fel dewis gyrfa hyfyw a/neu garreg camu tuag at yrfa arall.

**Astudiaeth Achos - recriwtio a hyfforddiant**

Mae Kira yn 23 oed ac astudiodd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y coleg, dewisodd gyflawni ei lleoliad yn ein cartref gofal yng Nghorwen. Ar ôl cwblhau ei hastudiaethau, mwynhaodd ei lleoliad gymaint iddi benderfynu gweithio'n llawn amser yn y cartref am y ddwy flynedd nesaf.



Dringodd Kira y llwybr gyrfa yn sydyn a daeth yn Uwch Gymhorthydd Gofal. Mae Kira bellach wedi llwyddo i gofrestru ar gwrs nyrsio llawn amser - ei nod yn y pen draw yw bod yn nyrs oedolion cymwys.

Meddai Kira: "Yn fy rôl fel Uwch Gymhorthydd Gofal, rwyf wedi gweithio gyda nyrsys a pharafeddygon, ac roedd hynny wedi datblygu fy hyder. Cefais fewnwelediad gwirioneddol i'r gwaith, a rhoddodd y hyder i mi benderfynu rhoi cynnig arni." Ers dechrau astudio'n llawn amser, mae Kira wedi parhau fel Uwch Gymhorthydd Gofal ac yn aml mae'n gwneud sifft ar benwythnos / yn ystod egwyl yn ei hastudiaethau.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

**Pobl hŷn**

Rydym wedi cysylltu gyda phobl hŷn drwy fforymau pobl hŷn a digwyddiadau ymgysylltu cymunedau sy'n gyfeillgar i oed. Mae eu hadborth wedi llywio'r asesiad gwaelodlin wnaeth fwydo i mewn i gynllun gweithredu Sir Ddinbych a chais i Sefydliad Iechyd y Byd i fod yn achredidig fel sir cyfeillgar i oed.

Roedd Sir Ddinbych yn Gweithio fel un o aelodau Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych yn cyflwyno i'r grŵp ar gyfleoedd ar gyfer cefnogaeth gwaith i ddinasyddion hŷn. Cafodd hyn ymateb da iawn gan fod llawer o aelodau yn dweud bod argyfwng costau byw wedi cael effaith mawr ar bobl hŷn, gan arwain iddynt deimlo'r angen i ddychwelyd i'r gwaith neu barhau yn y gwaith am gyfnod hwy er gwaethaf pryderon iechyd.

Roedd rhai aelodau o'r grŵp yn gallu cynnig cyfleoedd gwaith tra bod eraill wedi cysylltu pobl maent yn eu cefnogi i Sir Ddinbych yn Gweithio am gymorth a chefnogaeth gyda materion fel:

- Magu hyder
- Sgiliau iaith
- Cynhwysiant Digidol
- Diweddaru sgiliau

Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod holl ddarparwyr gofal preswyl a chartref yn Sir Ddinbych yn gallu cwrdd â'r Cynnig Cymraeg Rhagweithiol (Mwy Na Geiriau) a darparu cefnogaeth i ddinasyddion yn eu dewis iaith. Oherwydd yr heriau recriwtio a chadw staff, mae cynnydd yn arafach nag y byddem wedi gobeithio, ond mae yna eisoes rai enghreifftiau o arfer da fel;

**Astudiaethau Achos o'r Cynnig Rhagweithiol:**

Mae gan gartref darparwr yn Ninbych oddeutu 15 aelod o staff sy'n gallu siarad rhywfaint o Gymraeg ac yn gallu cynnal sgyrsiau syml gyda phreswylwyr sy'n siarad Cymraeg.

Roedd y cartref wedi ceisio archebu lle i staff ar gwrs siarad Cymraeg sylfaenol, ond yn anffodus, roeddent yn canfod bod cyrsiau wedi llenwi'n gyflym iawn neu fel arall wedi eu canslo.

I ddathlu diwrnod Santes Dwynwen, gwnaeth y cartref gardiau i aelodau o'r teulu a gweini bwyd Cymreig traddodiadol yn ystod y diwrnod. Gwnaethant hefyd ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Mae'r cartref yn defnyddio posteri dwyieithog i wahodd teuluoedd i ddathlu'r digwyddiadau hyn gyda'u hanwyliaid sy'n breswylwyr.

Mae'r cartref yn gweithio'n agos gyda'r Fenter Iaith, sydd wedi addasu brawddegau sylfaenol i staff ddysgu a siarad gyda phreswylwyr. Mae tua 80% o hysbysiadau'r cartref yn ddwyieithog ac maent yn bwriadu ei wneud yn 100%. Mae llawer o deuluoedd preswylwyr wedi croesawu ymdrechion y cartref i wella'r defnydd o'r Gymraeg yn y cartref ac maent yn cynnig llawer o gymorth i gefnogi staff i ynganu geiriau Cymraeg.

Mae micro-ddarparwyr yn cefnogi Pobl Hŷn yn Sir Ddinbych yn bennaf, er bod rhai yn cefnogi pobl ag anableddau dysgu, pobl iau, pobl gyda dementia a phobl gydag anableddau iechyd corfforol. Gall dinasyddion cymwys ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol i dalu am wasanaethau micro-ddarparwr.

Mae micro-ddarparwyr yn cynnig mwy o ddewis ar gyfer dewisiadau gofal a chefnogaeth, cefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain am gyfnodau hwy a gwella ansawdd eu bywydau drwy ddarparu ystod o wasanaethau fel helpu pobl i gael bywydau cymdeithasol prysur. O 30 Ebrill 2024, roedd yna 58 (cynnydd o 30 ers y llynedd) o ficro-ddarparwyr yn gweithio yn Sir Ddinbych, yn cefnogi tua 250 o ddinasyddion.

Rydym yn ffodus i gynnal Pwyntiau Siarad o fewn llyfrgelloedd ar draws y sir. Un o'r gwasanaethau mae Llyfrgelloedd yn gallu ei ddarparu yw data ffôn symudol am ddim i bobl sy'n ei chael hi'n anodd fforddio mynediad i'r rhyngrwyd. Mae ganddynt gardiau sim ar gael gyda chwe mis o ddarpariaeth data. Bydd llyw-wyr cymunedol hefyd yn archwilio ffyrdd i gael dyfeisiau cytûn os bydd angen. Mae'r Llyw-wyr Cymunedol yn parhau i atgyfeirio i Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych (CAB). Mae Llyw-wyr Cymunedol hefyd yn ymroddedig i lysgenhadon Canolfannau Clyd ar draws y sir dros y gaeaf.

Mae'r tîm Ar Ymyl Gofal a Sir Ddinbych yn Gweithio wedi cefnogi mwy o bobl hŷn i aros yn y gwaith neu gyfleoedd gwirfoddoli yn ystod 2023/24.

Mae costau byw uchel wedi arwain at bobl angen aros yn y gwaith yn hirach, felly mae'n ddefnyddiol i CSDd weithio tuag at fod yn 'gyflogwr Cyfeillgar i Oed'.

Mae 46 o ddinasyddion (pobl hŷn) yn cael eu cefnogi o fewn ein 3 Chynllun Tai Gofal Ychwanegol yn Sir Ddinbych. Bydd maint llety Pobl Hŷn yn cynyddu 35 uned ar ôl cwblhau datblygiad cam 2 yn Llys Awelon, Rhuthun yn ystod yr hydref 2024.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Cynhaliwyd arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) o'n gwasanaeth gofal cartref ym mis Awst 2023. Roedd yr arolygiad yn cynnwys adolygiad bwrdd gwaith, cyfweliadau â staff a dinasyddion ac ymweliad safle â Thai Gofal Ychwanegol Gorwel Newydd yn y Rhyl.

Crynodeb o ddarganfyddiadau o fewn adroddiad AGC oedd;

- Mae pobl yn hapus gyda'r gwasanaeth maent yn ei gael ac yn canmol safon y gofal.
- Ymdrechir i gynnwys pobl mewn penderfyniadau am eu gofal a chefnogaeth.
- Mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu ac mae eu gofal yn cael ei deilwra i gyd-fynd â'u dymuniadau a'r hyn sydd orau ganddynt.
- Mae'r gofal a ddarperir yn hyblyg i gyd-fynd â newidiadau mewn anghenion pobl.
- Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion gofal presennol pobl a sut maent yn dymuno cael eu cefnogi ac mae'r dogfennau hyn yn cael eu diweddaru pan fo angen.
- Gofynnir am farn pobl fel rhan o adolygiadau ffurfiol o'r gwasanaeth a ddarperir.
- Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain yn dda a'i reoli'n dda yn gyson. Mae trefniadau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd ac i ystyried sut y gellir ei wella neu ei ddatblygu ymhellach. Mae staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel, yn cael eu cefnogi'n dda gan reolwyr ac yn cael yr hyfforddiant perthnasol.
- Mae staff yn mwynhau gweithio yn y gwasanaeth ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn eu gwaith. Dywedodd pobl wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a chefnogaeth maent yn ei gael a bod eu hanghenion gofal yn cael eu bodloni. Dywedodd gweithiwr proffesiynol gofal cymdeithasol wrthym fod staff yn gweithio mewn partneriaeth gyda nhw a gweithwyr proffesiynol iechyd. Mae hyn yn hwyluso pobl i oresgyn rhwystrau a chyflawni deilliannau cadarnhaol.

Mae yna hefyd Gynllun Tai Gofal Ychwanegol yn Ninbych, ble darperir y gofal gan ddarparwr allanol. Rydym yn ystyried dewisiadau ar gyfer datblygiad pellach yn ne'r sir ar hyn o bryd i fodloni anghenion pobl hŷn yn yr ardaloedd mwy gwledig o Rhuthun.

**Pobl ag anableddau cymhleth**

Mae Byw yn y Gymuned yn cefnogi unigolion i fyw yn annibynnol mewn lle diogel a chyfforddus. Mae hyn yn dai â chymorth a rennir fel arfer, gyda'r niferoedd ym mhob tŷ yn amrywio rhwng 2 a 5. Mae gan bob unigolyn eu cynllun gofal eu hunain, a ddatblygwyd gyda nhw.

Mae staff cefnogi yn annog cyfranogiad gweithredol ac yn helpu unigolion i ddatblygu sgiliau newydd i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth. Cefnogi unigolion i gymryd risgiau mewn modd cadarnhaol a gofalus er mwyn galluogi iddynt gyflawni'r canlyniadau y maent yn eu dymuno. Mae enghraifft o hyn i'w weld yn yr astudiaeth achos isod.

**Astudiaeth Achos Byw yn y Gymuned:**

Symudodd A i dŷ Byw yn y Gymuned ar ddiwedd y llynedd. Hyd at hynny, roedd A wedi byw adref gyda'r teulu. O'r dechrau, roedd yn bwysig sicrhau A na fyddai symud i leoliad byw â chymorth yn eu dal yn ôl, ond yn hytrach yn eu helpu i dyfu'n annibynnol, i gael mwy o reolaeth dros eu bywyd ac i roi'r cyfle iddynt ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol newydd.

Yn ystod y misoedd cyntaf, roedd staff cefnogi wedi treulio llawer o amser gydag A, i wybod beth oedd yn bwysig iddyn nhw ac i ddysgu am eu hamcanion ac uchelgeisiau. Dysgodd y staff cefnogi mai'r pethau pwysicaf i A oedd cael trefn reolaidd, gallu gweithio a gallu mynd allan i'r gymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau mae'n eu mwynhau.

Gan fod A yn hollol newydd i'r ardal, nid oedd yn gwybod pa weithgareddau oedd ar gael, nid oedd ganddo swydd ac nid oedd yn gallu mynd allan i'r gymuned yn ddiogel ar ben ei hun.

Dechreuodd staff cefnogi fynd allan i'r gymuned gydag A mor aml â phosibl, gan helpu A i ddod yn gyfarwydd gyda'r ardal leol a gweithgareddau oedd ar gael.

Ymwelodd y staff cefnogi â llawer o grwpiau a mannau lleol gydag A a gweithio ar sgiliau i ddatblygu hyder. Yn ystod yr amser hwn, roedd staff cefnogi yn gallu ailgadarnhau ymddygiad priodol ac yn annog A i beidio ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n eu rhoi mewn perygl pan oedd ar ben ei hun yn y gymuned. O ganlyniad i ddatblygu sgil a chynyddu hyder A a bod yn gyfarwydd, mae A wedi dechrau mynychu rhai gweithgareddau a mannau ar ben ei hun yn ddiogel yn ddiweddar, heb gefnogaeth staff. Mae A hefyd yn mynychu gwasanaeth dydd yn y gwaith 3 diwrnod yr wythnos.  Soniodd A wrth y staff cefnogi eu bod bob amser eisiau ymweld â Chaeredin ond nad oedd erioed wedi cael y cyfle i fynd ac nad oedd yna unrhyw un i fynd gyda nhw. O ganlyniad, mae A yn y broses o gynllunio ymweliad 2 noson i Gaeredin gydag aelod o'r staff cefnogi ar hyn o bryd.

Mae adborth gan aelodau o'r teulu wedi cynnwys bod A wedi dod yn fwy annibynnol nag erioed ac mae symud i Fyw yn y Gymuned wedi rhoi cymaint o gyfle iddynt.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Rydym yn comisiynu gofal a chefnogaeth mewn 50 cynllun Byw â Chymorth ar draws Sir Ddinbych, yn ogystal â bod â dau gynllun mewnol.

Yn fwy diweddar, mae dinasyddion wedi cael cynnig Taliadau Uniongyrchol i brynu eu gofal eu hunain o fewn Cynllun Byw â Chymorth. Mae hyn wedi arwain at 3 dinesydd yn prynu gofal a chefnogaeth fel hyn.

Rydym yn parhau i weithio i fapio anghenion tai a chefnogaeth i bobl ag anableddau dysgu i fyw yn annibynnol yn y gymuned, gyda threfniadau gofal a chefnogaeth hyblyg. Dylai prosiect byw â chymorth newydd i bedwar tenant yn y Rhyl gael ei gwblhau erbyn diwedd yr haf 2024.

Mewn partneriaeth gyda CBSC, mae Sir Ddinbych yn comisiynu gwasanaethau hunan-eiriolaeth i gefnogi pobl ifanc ag anableddau cymhleth i fynegi eu barn a'u dymuniadau ar gyfer y dyfodol. Mae'r prosiect yn ceisio cefnogi pobl i gael dyheadau ar gyfer cyflogaeth â thâl a byw'n annibynnol ble bo'n bosibl.

Yn ogystal, rydym yn comisiynu prosiect gyda darparwr annibynnol i ganolbwyntio cefnogaeth i unigolion gael sgiliau newydd i'w galluogi nhw i gymryd rhan a chael mynediad i gyfleoedd cyflogaeth. Mae'r prosiect 'digon o gefnogaeth' yn cael ei arwain gan Therapyddion Galwedigaethol sy'n darparu cynlluniau manwl i gefnogi datblygiad sgiliau penodol a datblygu hyder oedolion ag anableddau cymhleth.

Bydd Strategaeth Cyflogaeth â Chymorth Gogledd Cymru yn cael ei lansio'n fuan iawn. Nod y strategaeth yw rhoi grym i bobl sydd ag anableddau dysgu drwy hybu eu mynediad at waith cyflogedig wrth barchu eu dewisiadau a meithrin cymunedau cynhwysol. Mae'n ceisio gweithredu model cefnogi cyflogaeth newydd i bobl sydd ag anableddau dysgu, yn unol â safonau cywirdeb enghreifftiol y Fframwaith Ansawdd Cyflogaeth â Chymorth.

Mae'r prosiect Ymagweddau Dilyniannol at Dai â Chymorth (PASH) yn cynnwys datblygu modelau newydd o ddarparu gwasanaeth integredig a chydweithredol sy'n hybu cynnydd o leoliadau traddodiadol. Mae'r prosiect yn cynnwys gweithio gyda theuluoedd a dinasyddion sy'n symud i wasanaethau oedolion, o 18 oed i fyny.

Mae'r model PASH yn asesu'r lefel o angen i sicrhau bod y dinesydd yn cael ei baru gyda'r lleoliad byw â chymorth cywir i hybu annibyniaeth a hunan-barch.

Hefyd bwriedir cynyddu buddsoddiad mewn dulliau gwerth cymdeithasol o ddarparu gofal, symud i ffwrdd o'r dull cymorth preswyl tuag at ddarpariaeth gymesur mewn lleoliadau cymunedol gan ddefnyddio adnoddau cymunedol. Mae'r gwahanol fathau o leoliadau byw â chymorth yn amrywio o Ddrws Ffrynt eu Hunain gyda modelau cefnogi pwrpasol ar gyfer Cefnogi Datblygiad Unigolyn gyda phrosiectau byw yn y gymuned 24 awr.

Yn ogystal, mae'r broses PASH yn galluogi'r awdurdod i lenwi lleoliadau byw yn y gymuned yn gynt ac yn fwy priodol, gan leihau'r nifer i swyddi gwag a lleoliadau yn chwalu. Prif amcanion PASH yw cadw cefnogaeth yn lleol, cost effeithiol a chanolbwyntio ar yr unigolyn.

Bwriedir i osgoi dibynnu ar leoliadau hirdymor a thymor byr y tu allan i'r sir.

Gan adeiladu ar y dysgu o'r Pandemig, rydym yn parhau i edrych ar ffyrdd arloesol o gyflwyno technoleg o fewn cyfleoedd dydd a gwaith yn fewnol a gyda'r ddarpariaeth a gomisiynir gennym.

**Defnyddio Astudiaeth Achos Technoleg**

Cefnogwyd dinasyddion oedd yn mynychu ein hadnodd dydd mewnol, Cynnyrch Coed Meifod, i ddylunio, pacio a gwerthu ystod newydd o Addurniadau Nadolig. Cafodd dinasyddion brofiad gwerthfawr yn y broses o ddatblygu cynnyrch a gwnaethant ddewisiadau allweddol o amgylch y cynnyrch terfynol. Defnyddiodd dinasyddion raglenni dylunio ar gyfrifiadur a pheiriant laser i greu cynnyrch, ynghyd â chynnig cyfleoedd datblygu sgiliau saer mwy traddodiadol i wneud coed Nadolig allan o bren.



Mynychodd dinasyddion nifer o ddigwyddiadau Marchnad Nadolig cymunedol i werthu'r cynnyrch, gan roi'r cyfle iddynt ddatblygu eu sgiliau rhyngbersonol. Roedd y prosiect hwn yn llwyddiant anferth yn ôl y dinasyddion eu hunain, y staff a'r gymuned leol.

Teimlodd pawb bod y prosiect hwn yn gam mawr ymlaen tuag at gynnwys pawb!

Mae Tîm Llys Gwarchod yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda dinasyddion a'u gofalwyr i wella'r ardal gymunedol yn eu cartrefi i wneud y gorau o fuddion eu costau Cymorth Tai Ychwanegol a hawliwyd drwy Fudd-dal Tai.

Ymwelwyd ac aseswyd 43 o dai Byw yn y Gymuned, newid neu uwchraddio nwyddau gwyn i gwrdd ag anghenion y preswylwyr, ardaloedd cymunedol wedi eu haddurno a lloriau newydd, i greu amgylchedd mwy cartrefol sy'n cwrdd â'u hanghenion.

Mae'r tîm COP hefyd yn gweithio gyda phreswylwyr i gynyddu eu mynediad i fannau y tu allan, mae enghreifftiau yn cynnwys sicrhau mynediad i'w gerddi drwy sicrhau bod yna fynediad i gadair olwyn, disodli decin pydredig, cyflogi garddwyr. Mae'r tîm COP yn cefnogi dinasyddion i gael mynediad i geir Motability drwy sicrhau bod unigolion yn derbyn y budd-daliadau cywir ac yn gallu cyllidebu'n effeithiol, mae cael y cludiant cywir yn caniatau mwy o fynediad ac ymgysylltu cymunedol mewn gweithgareddau cymdeithasol.

**Gofalwyr**

Mae Sir Ddinbych yn parhau wedi ymrwymo i hybu dewis a rheolaeth ac annog gofalwyr i wneud dewisiadau unigol. Mae cyngor a chefnogaeth ar gael gan y tîm Ymgynghorwyr Byw'n Annibynnol a Thaliadau Uniongyrchol, sy'n gallu mynychu ymweliadau ar y cyd gydag Aseswyr Gofalwyr i egluro'r broses Taliadau Uniongyrchol a chyfrifoldebau i ofalwyr di-dâl a'u teuluoedd.

Mae'r gefnogaeth hon yn ein galluogi i nodi amgylchiadau a all arwain at Daliad Uniongyrchol neu gyflwyno cod / talebau Pontio'r Bwlch. Mae taliadau uniongyrchol (weithiau drwy gardiau rhagdaleidg) yn caniatáu i ofalwyr brynu'r gefnogaeth briodol i ddiwallu eu canlyniadau lles eu hunain a'u cefnogi i gynnal eu hiechyd a lles eu hunain. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn comisiynu'r cynllun Pontio o Wasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (NEWCIS). Yn dilyn asesiad gofalwr, bydd gofalwyr cymwys yn derbyn talebau Pontio'r Bwlch a ellir eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau.

Rydym yn archwilio'r defnydd o dechnoleg fel Teleofal i roi sicrwydd a chymorth i ofalwyr sy'n ymwneud â phryderon am ddiogelwch a materion eraill. Rydym wedi gallu hybu a chefnogi'r defnydd o ddyfeisiau syml ac apiau sy'n gwneud byd o wahaniaeth i annibyniaeth rhywun a rhoi sicrwydd i'r gofalwr. Darparwyd hyfforddiant gan ein Gwasanaeth Offer Cymunedol Integredig (CESI) i rai gofalwyr di-dâl i sicrhau eu bod yn hyderus yn defnyddio offer teleofal ac addasiadau.

Mae gofalwyr hefyd wedi eu cyfeirio i hyfforddiant sgiliau digidol gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych a Cwmpas i ddatblygu sgiliau digidol a helpu pobl i gynnal eu hannibyniaeth a chysylltiadau gyda'u teuluoedd a'u cymunedau.

I fynd i'r afael â phryderon y gofalwr o beidio cael hyder i adael y sawl sy'n derbyn gofal neu'r sawl sy'n derbyn gofal ddim eisiau cael ei adael ar ben ei hun tra mae'r gofalwr yn cymryd egwyl byr, mae Cyngor Sir Ddinbych yn archwilio'r defnydd o dechnoleg i roi sicrwydd a chymorth i ofalwyr sy'n ymwneud â phryderon diogelwch a materion cysylltiol eraill.

Un enghraifft o hyn oedd cyflwyniad gan Science and Engineering Applications Ltd i egluro eu defnydd Gofal ac Ymateb.

Mae yna waith parhaus i wella'r cynnig egwyl byr ac ymestyn hyblygrwydd a dewis i ofalwyr di-dâl, gyda datblygu polisi a chanllawiau i'n staff sy'n cefnogi gofalwyr a'r bobl maent yn gofalu amdanynt. Mae egwyl i'r unigolyn sy'n derbyn gofal hefyd yn rhoi egwyl i'w gofalwr, gyda chyfle i fynychu apwyntiadau neu gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden.

Meddiannwyd Canolfan Ddydd Hafan Deg gan y cyngor ym mis Mawrth 2023 ac rydym wedi buddsoddi mewn ailwampio'r adeilad, gan ei wneud yn adnodd aml-bwrpas modern a deniadol. Bellach, rydym yn gallu cynnig ystod o wasanaethau cefnogi i ofalwyr a seibiant i ofalwyr, yn ogystal â gwasanaethau rhoi bath a golchi dillad. Mae yna ystafell ddydd ailalluogi yn Hafan Deg ble mae 2 neu 3 o bobl yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau ailalluogi fel paratoi pryd o fwyd, symud neu roi bath. Mae offer yn amrywio o declyn tywallt tegell a chadeiriau uwch, i wely arbenigol ac offer hoist yn gallu cael eu 'profi' gan ddinasyddion gyda staff cefnogi wrth eu hochr.

Mae staff yn ein Timau Adnoddau Cymunedol ar draws Sir Ddinbych yn gallu cysylltu â staff Hafan Deg i drefnu apwyntiad. Yn ystod 2023-24, roedd 16 o ddinasyddion wedi archebu diwrnod blasu yng nghanolfan ddydd Hafan Deg. Ar gyfartaledd, mae 20 o ddinasyddion yn mynychu'r ganolfan ddydd am rhwng 1 a 3 sesiwn bob wythnos.

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru a Chyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yn darparu Cynllun Cadw mewn Cysylltiad i ofalwyr di-dâl, a dargedwyd tuag at y sawl sy'n arbennig o ynysig neu'n unig. Datblygodd ASCHS y cynllun hwn fel peilot gyda NEWCIS a CAB Sir Ddinbych ac mae'n parhau i'w ariannu drwy RIF. Mae'r gwasanaeth hwn newydd gael ei gydnabod gan CGGSDd ac wedi ennill gwobr gwirfoddolwr am gefnogaeth gymunedol.

**Gwasanaethau plant**

Dechreuodd gwaith eleni i ddatblygu prosiect 'Ystafell Wely' i bobl ifanc (16-25) gydag anghenion mwy cymhleth, mae hyn yn darparu cefnogaeth ddwys, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn datblygu sgiliau byw yn annibynnol.

**Dyma rai pethau sydd eto i'w cwblhau**

- Parhau i weithio ar y cynllun cyflogaeth ar gyfer ceiswyr lloches, gweithio gyda phartneriaid mewnol i hybu gofal cymdeithasol fel cyfle gyrfa.
- Gweithredu Strategaeth Cyflogaeth â Chymorth Gogledd Cymru.
- Dilyn dewisiadau Tai Gofal Ychwanegol yn ne Sir Ddinbych.
- Aildendro'r Contractau Cefnogaeth a Gofal Byw â Chymorth ar draws ein 50 prosiect

## 5. Sut rydym yn cyflawni ein gwaith

### a) Ein gweithlu a sut rydym yn cefnogi eu rolau proffesiynol




Mae un o weithwyr cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych wedi'i chydnabod yn ymgyrch 'Amazing Social Workers 2023' Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW) eleni am ei chyfraniadau rhagorol i'r proffesiwn.

Mae Anne Roberts yn ddirprwy reolwr tîm profiadol o fewn tîm adnodd cymunedol y cyngor.

Lansiwyd yr ymgyrch yn rhan o ddathliadau Mis Gwaith Cymdeithasol y Byd BASW ac mae'n gyfle unigryw i gydnabod a rhannu cyflawniadau gweithwyr cymdeithasol ar draws y DU ac i gydnabod a thalu teyrnged i'w gwaith nhw.

Gan siarad am ei henwebiad, dywedodd Anne: "Mae'n fraint cael fy enwebu am wobr o'r fath. Mae'r gwasanaethau sy'n rhan o ofal cymdeithasol wedi chwarae rhan bwysig yn fy mywyd i, ar lefel bersonol a phroffesiynol. Drwy'r holl brofiadau yma gyda'i gilydd ydw i wedi datblygu dealltwriaeth ddyfnach o rôl gweithiwr cymdeithasol, a'r cymorth trawsnewidiol mae'n gallu ei ddarparu i bobl.

Mae addysg yn werthfawr iawn i mi, ac mae Cyngor Sir Ddinbych wedi rhoi'r cyfle i mi ddatblygu fy ngyrfa ac astudio ymhellach. Mae gweithio mewn amgylchedd mor gadarnhaol a gweithio gyda gweithwyr iechyd eraill wedi rhoi gwybodaeth a sgiliau ychwanegol i mi, sy'n fy ngalluogi i gefnogi fy nhîm.

Mae'n bleser gweithio gyda fy nghydweithwyr yng Nghyngor Sir Ddinbych. Mae'r tîm rydw i'n ei reoli'n cynnwys gweithwyr cymdeithasol, ymarferwyr gofal cymdeithasol, ymarferydd gofal cymdeithasol dementia a therapyddion galwedigaethol. Mae pob un ohonyn nhw mor weithgar ac yn cefnogi'r naill a'r llall. Maen nhw'n gwneud fy rôl i gymaint yn haws."

Meddai'r Cynghorydd Elen Heaton, Aelod Arweiniol Iechyd a Gofal Cymdeithasol: "Rydw i'n falch iawn o glywed bod un o weithwyr cymdeithasol Sir Ddinbych wedi'u cydnabod ar lefel genedlaethol am eu gwaith caled a'u hymroddiad i'w rôl a'u tîm.

Mae ein gweithwyr cymdeithasol yn Sir Ddinbych yn gweithio mor galed, felly mae'n braf gweld bod yr ymdrech wedi'i chydnabod gan Gymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain. Llongyfarchiadau mawr i Anne am y gamp aruthrol hon."




Dathlodd ein timau Wythnos Gwaith Cymdeithasol yn ystod mis Mawrth ac ymwelodd yr Aelod Arweiniol y Cynghorydd Elen Heaton ac ychwanegodd addewid i'r goeden addewid. Rhannodd staff wybodaeth a phrofiad ac ysbrydolwyd y naill a'r llall wrth rannu astudiaethau achos a storiau llwyddiant.




## Cyflwyno gwobr fawreddog i Therapydd Galwedigaethol Sir Ddinbych



Mae Sara Thelwell, Therapydd Galwedigaethol gyda Chyngor Sir Ddinbych, wedi ennill y 'Wobr Arloesedd' fawreddog yn seremoni Dathlu Rhagoriaeth Mewn Therapi Galwedigaethol (RCOT) Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol 2023 a gynhaliwyd yn ddiweddar yn y Shard yn Llundain.

Mae enillydd y Wobr Arloesedd yn cael arian tuag at brosiectau sy'n anelu at gefnogi dyfodol y proffesiwn ac arfer proffesiynol.

Derbyniodd Sara'r wobr yn gynharach eleni ond fe'i cyflwynwyd iddi'n ffurfiol yn y seremoni wobrwyo flynyddol a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Gyda'r arian a gafodd bu modd i Sara fynd i Wlad Belg yn gynharach eleni i weithio gyda'r ffisiotherapydd blaenllaw Jo DeClercq lle astudiodd y dechneg ofal Troi Unwaith yn Unig yn y Gwely. Mae'r dull hwn wedi arwain at niferoedd llawer llai o unigolion yn datblygu anafiadau pwysau a chrebachdod.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Rydym wedi arbrofi mewn sut yr ydym yn ymgysylltu'r gweithlu mewn dysgu a datblygu ac eleni comisiynwyd y grŵp theatr dwy fenyw 'Haylo' i gyflwyno perfformiad symud i hybu'r ymwybyddiaeth o ddementia a'i effaith ar y teulu cyfan.

Wedi'i lwyfannu yn Theatr Twm o'r Nant, Dinbych, mae 'Over the garden fence' yn annog sgyrsiau nid yn unig am dementia, ond pwysigrwydd parhaus yr unigolyn yn byw y tu ôl i'r diagnosis.

Gwahoddwyd amrywiaeth o asiantaethau ac roedd y gwerthusiadau a dderbyniwyd ar ôl y digwyddiad yn amlygu'r llwyddiant;

- "Perfformiad ardderchog, pwerus iawn ac yn fwy effeithiol na hyfforddiant safonol i godi ymwybyddiaeth".
- "Perfformiad gwych i amlygu materion dementia ar gyfer yr unigolyn ac aelodau o'r teulu."
- "Diolch am y cyfle i weld y perfformiad hwn, ychwanegu cipolwg arall ar adrodd stori dementia."
- "Gadewch i mi wybod a oes yna gyfle arall i weld hwn eto!".
- "Portread sensitif iawn o ddementia."
- "Roedd yn glir iawn ac yn gwneud i mi deimlo'n ddigalon. I weld y dementia yn effeithio ar bobl mewn ffordd wahanol."
- "Mae hwn yn berfformiad emosiynol iawn! Roeddwn i'n crio ac yn chwerthin. Pwerus iawn, portread cywir iawn a thorcalonnus o ysbrydoledig i fod eisiau gwneud hyd yn oed mwy i gefnogi pobl yn byw gyda dementia."

Roedd 2193 lle wedi eu llenwi ar draws y sector yn 23/24.  O'r rhain, roedd 90% yn weithwyr o wasanaethau statudol, 97% o Fudiadau Gwirfoddol a 83%  o Ddarparwyr Preifat. Mae hyn yn dangos ein bod yn dal i gefnogi'r sector ehangach yn gadarnhaol i gael mynediad i adnoddau dysgu a datblygu sydd wir eu hangen.

Cafodd y Fframwaith Dysgu a Datblygu Diogelu Cenedlaethol ei lansio yn Hydref 2023. Mae hyn yn cyfannu'r Safonau Diogelu a lansiwyd y llynedd ac yn darparu mwy o gyfeiriad ar gyfer deilliannau dysgu. I gefnogi dealltwriaeth o hyn, trefnodd Datblygu'r Gweithlu 2 weithdy ar gyfer Darparwyr i siarad am y safonau a'r fframwaith a chefnogi syniadau i weithredu hyn yn eu lleoliadau eu hunain.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Mae Datblygu'r Gweithlu wedi lansio 3 Blynedd Cyntaf Ymarfer Cymuned Dysgu ar gyfer gweithwyr cymdeithasol newydd gymhwyso sy'n dechrau ar eu blynyddoedd cyntaf yn ymarfer. Mae'r grŵp wedi'i ddylunio i ddarparu cyfleoedd dysgu a datblygu pwrpasol a chynnig cefnogaeth broffesiynol, myfyriol a chyfoedion ychwanegol drwy rannu profiadau. Mae rôl y Cydlynydd Dysgu Ymarfer Gwaith Cymdeithasol yn ei hail flwyddyn ac mae cael y rôl ymroddedig hon yn dwyn ffrwyth o ran gwaith partneriaeth agosach gyda myfyrwyr, Prifysgol Wrecsam, Addysgwyr Ymarfer a'r timau yn y gwasanaethau.

Mae hyn yn arwain at fwy o leoliadau o ansawdd a myfyrwyr yn ymgeisio am swyddi, gyda thrafodaethau yn cael eu cynnal yn aml mor fuan â'r lleoliadau 2il flwyddyn.

Mae llwybr 'datblygu eich gweithlu eich hun' y Brifysgol Agored yn parhau i ennill momentwm ac yn 23/24 roeddem yn gallu noddi 2 Ymarferydd Gofal Cymdeithasol pellach, i ymuno â'r 3 sydd newydd ddechrau'r ail flwyddyn, i gwblhau'r Rhaglen Gradd Gwaith Cymdeithasol drwy'r Brifysgol Agored.

Yn ystod y flwyddyn diwethaf rydym hefyd wedi cefnogi lleoliadau myfyrwyr ar gyrsiau gradd heblaw Gwaith Cymdeithasol e.e. Astudiaethau Plentyndod - mae hyn wedi bod yn fuddiol i gyflwyno Sir Ddinbych fel cyflogwr posibl a gobeithio y bydd profiadau lleoliad cadarnhaol yn arwain at geisiadau am swyddi neu hybu gyrfaoedd mewn gwaith cymdeithasol.

Mae ein Rhaglen Rhithiol wedi tyfu ac rydym wedi derbyn gwahoddiad i ddangos yr adnodd i Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru a Chynhadledd Wanwyn ADSS Cymru. Roeddem hefyd wedi darparu sesiynau i'r Rheolwyr Tîm Datblygu Gweithlu Rhanbarthol a Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru.

Mae'r adnodd yn ennill tyniant ar draws y rhanbarth a gyda hyn o bosibl y daw cyfleoedd i addasu a datblygu cynnwys posibl gyda chyd-destun Cymreig. Fel rhan o'r cyflwyno fesul cam, gwnaethom gyflwyno sesiwn i fyfyrwyr ym Mhrifysgol Wrecsam ble cyfunwyd myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol a Chyfiawnder Troseddol i ddatblygu sgyrsiau am gydweithio ar ddiogelu. Roedd y cynnwys Realiti Rhithwir wedi dechrau trafodaethau diddorol iawn o amgylch safbwyntiau gwahanol a'r defnydd o iaith a jargon proffesiynol mewn gwaith diogelu. Mae'r gwerthusiadau yn dangos pa mor bwerus oedd y cynnwys.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

“Fel oedolyn, doeddwn i ddim yn gallu edrych i fyw llygaid y dyn yn y ffilm, ac roeddwn i wedi dychryn pa mor ddi-rym roeddwn i’n teimlo. Chewch chi mo hynny mewn gwerslyfr”.

“Roedd cael safbwynt y plentyn wirioneddol yn agor fy llygaid i’r anghydbwysedd grym. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn lleoliad Gwaith Cymdeithasol”.

“Roedd hyn yn rhoi dealltwriaeth ymdrochol ac empathetig o safbwynt plentyn. Byddaf yn gweithredu hyn yn fy ngwaith ac yn fy mywyd yn gyffredinol, gan ei fod yn fy ngalluogi i gadw’r plentyn yn ganolog yn fy meddwl a theimladau.”

“Gyda phrofiad Realiti Rhithwir rydych yn cadw mwy o wybodaeth gan nad ydych yn dysgu yn unig ond yn teimlo’r profiad”.

“Rydw i’n cefnogi hyfforddiant Realiti Rhithwir 100% - hwn yw’r hyfforddiant

**Mwy Na Geiriau**

O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych mae yna ymrwymiad clir i wella gwasanaethau i sicrhau bod y Gymraeg yn elfen allweddol o ofal, gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan y sector annibynnol. Mae’r gwaith hwn wedi’i arwain gan y Fframwaith Mwy Na Geiriau (2022-27)

Rydym yn parhau i hybu’r Gymraeg o fewn gwasanaethau Oedolion a Phlant mewn sesiynau ymsefydlu ar gyfer staff newydd. Yn ogystal, atgoffir staff yn rheolaidd am ofynion Safonau’r Gymraeg.Rydym yn rhannu manylion y modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith a ddatblygwyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer gweithwyr a myfyrwyr gofal cymdeithasol sy’n dymuno dysgu mwy am y Gymraeg, diwylliant a gweithio’n ddwyieithog defnyddio Cymraeg yn y gwaith Rydym hefyd wedi comisiynu cyrsiau sgiliau Cymraeg lefel cwrteisi ar gyfer staff a hefyd wedi hybu ystod o gyfleoedd hyfforddiant Cymraeg (cyrsiau Iaith Gwaith a hefyd y Cwrs Cymraeg - Camau. Yn ogystal, mae’r tîm Gwasanaethau Oedolion wedi cymryd rhan yn y Prosiect ARFer a ddarperir gan Brifysgol Bangor ac yn anelu i gynnig cyfleoedd i staff gynyddu eu hyder yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Mae’r camau a weithredwyd gan dîm Gwasanaethau Oedolion Sir Ddinbych yn ystod 2023-24 wedi cynnwys cynnal archwiliad o sut mae gwasanaethau yn ateb anghenion siaradwyr Cymraeg ar hyn o bryd, ynghyd â gwaith i sicrhau gwelliant a rhannu arfer gorau i ddarparu’r ‘cynnig rhagweithiol’.

Mae'r tîm Contractau a Chomisiynu hefyd wedi cynnal archwiliad o ddarparwyr gofal Sir Ddinbych er mwyn asesu i ba raddau maent yn cwrdd â gofynion 'cynnig rhagweithiol' Mwy Na Geiriau. Mae sesiwn rhannu gwybodaeth wedi'i threfnu ar gyfer digwyddiad Darparwr yn y dyfodol er mwyn rhannu enghreifftiau o arfer gorau, ynghyd â rhannu adnoddau a gwybodaeth.

Yn olaf, rydym wedi parhau i gynyddu ymwybyddiaeth y sector o'r cynnig Rhagweithiol.

Dosberthir posteri, cortyn gwddf a sticeri yn ogystal ag adnoddau newydd a gynhyrchwyd gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gyda mewnbwn gan Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/blaenoriaethau-rhanbarthol/mwynageiriau/

**Gwobrau'r Gymraeg - Rhagoriaeth Sir Ddinbych**

Nid y Gymraeg yw iaith gyntaf Holly ond mae'n eiriolwr angerddol iawn dros yr iaith.

Yn ogystal â bod yn eiriolwr dros y Gymraeg o fewn y tîm a'r gwasanaethau ehangach, mae hi hefyd yn cefnogi pwysigrwydd y Gymraeg a'r cynnig rhagweithiol gyda'n darparwyr comisiynu yn gyson a gwirioneddol.

Mae Holly yn amlwg yn deall ac yn cydymdeimlo gyda'r pwysau a wynebir gan ofal cymdeithasol ond nid yw byth yn colli golwg o'r gwahaniaeth enfawr mae siarad gyda dinasyddion yn eu hiaith gyntaf yn gallu ei wneud i les a gofal/cefnogaeth dda. Mae Holly wedi fy ysbrydoli ac eraill rwy'n credu, nid yn unig i wella eu Cymraeg, ond yn llai ofnus i ddefnyddio'r Gymraeg.

Gyda'r holl bwysau anferthol o ddydd i ddydd, weithiau mae'n anodd meddwl am gymryd mwy o ddysgu a heriau ymlaen, ond mae Holly wedi parhau gydag ymdrechion anferthol i ddysgu Cymraeg oherwydd ei fod yn rywbeth mae'n angerddol amdano ac yn gweld pwysigrwydd - ac mae ei hymdrechion yn bendant yn talu ar ei ganfed. Mae'n cyfarch dinasyddion yn naturiol yn y Gymraeg - nad yw'n rhywbeth dwi'n meddwl mae pob un ohonom yn meddwl/cofio ei wneud - ac mae'n amlwg yn gwneud gwahaniaeth enfawr i dawelu meddyliau pobl. Mae pethau fel hyn yn helpu gyda newidiadau diwylliannol, a hefyd yn helpu i ddatblygu perthnasoedd mwy cadarnhaol ac yn rhoi argraff gadarnhaol o'r Cyngor.

## b) Ein hadnoddau ariannol a sut rydym yn cynllunio ar gyfer y dyfodol

Parhaodd 2023/24 i fod yn flwyddyn heriol yn ariannol, gyda chost gwasanaethau gofal cymdeithasol Plant ac Oedolion yn fwy na'r adnoddau a ddyrannwyd ar gyfer eu darparu fel y dangosir isod.

| | *Budget* | *Actual* | *Overspend* |
|---|---|---|---|
| *Children's Services* | £15,272,212 | £17,693,499 | £2,421,287 |
| *Adult Social Care & Homelessness* | £52,449,039 | £54,271,728 | £1,822,689 |
| ***Total*** | **£67,721,251** | **£71,965,227** | **£4,243,976** |

Pob Hydref, mae rhagolygon ariannol yn cael eu diweddaru ar gyfer y blynyddoedd i ddod, sy'n cynnwys tybiaethau ar gyfer cynnydd yn y galw a chwyddiant, gyda'r nod o ddyrannu cyllideb ychwanegol digonol i gwrdd â chostau cynyddol. Fodd bynnag, roedd cost cynyddol pecynnau gofal wedi achosi mwy o bwysau nag y rhagwelwyd ar y gyllideb, yn bennaf oherwydd cynnydd uwch mewn ffioedd darparwyr, gan gynnwys rhai costau lleoliad unigolion drud iawn, yn arbennig o fewn Gwasanaethau Plant.

Mae'r cynnydd mawr mewn Cyflog Byw Gwirioneddol yn y blynyddoedd diwethaf wedi cael effaith sylweddol ar y ffioedd a godir gan ddarparwyr gyda chynnydd o 10% mewn cyfradd fesul awr ar gyfer 23/24 a 24/25; fodd bynnag, rydym hefyd wedi wynebu ceisiadau codi ffi sy'n fwy na'r cynnydd mewn Cyflog Byw Gwirioneddol hwn a chyfraddau chwyddiant Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar draws y ddau wasanaeth (Gwasanaethau Arbenigol yn arbennig ar gyfer Oedolion a'r achosion cymhleth iawn o fewn Gwasanaethau Plant).

Yn dilyn y rhagolygon hyn ar gyfer 23/24, roedd y Cyngor wedi dyrannu cyllideb ychwanegol i gwrdd â'r pwysau rhagweledig hwn fel a ganlyn:

| *Dyraniad Cyllideb Ychwanegol ar gyfer Pwysau 23/24* | |
|---|---|
| | £2,000,000 |
| | £8,187,000 |
| | |

O ystyried yr her ariannol sylweddol a wynebir gan y Cyngor i gyd a chydnabod y gofynion statudol, yn anffodus, nid oes yr un o'r gwasanaethau hyn wedi eithrio rhag gostyngiadau yn y gyllideb.

Roedd targedau arbedion ar gyfer 23/24 wedi eu gosod yn £251k ar gyfer Gwasanaethau Plant a £830k ar gyfer Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd; sy'n cynyddu yn 24/25 i £322k ychwanegol ar gyfer Plant a £1,263k i Oedolion; bydd y cynnydd hwn yn cynyddu ymhellach ar gyfer y dyfodol ac mae aelodau etholedig a swyddogion o'r tîm gweithredol yn rhan o'r broses hon.

Mae'r ddau wasanaeth o dan bwysau parhaus i adolygu eu penderfyniadau comisiynu i gyflawni'r un fath ac weithiau mwy, gydag adnoddau cyfyngedig.

Mae'r gyllideb yn cael ei monitro bob mis yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol i Oedolion a Phlant, yn cynnwys Digartrefedd ac mae adroddiadau ariannol rheolaidd yn cael eu cyflwyno i'r Uwch Dimau Rheoli sy'n rhagweld y sefyllfa diwedd blwyddyn.

Mae trafodaethau'n canolbwyntio'n gynyddol ar gyllidebau dan bwysau ac archwilio sut y gall gofal gael eu ddarparu mewn ffyrdd amgen tra'n parhau i gyflawni deilliannau i ddinasyddion am gost llai.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i wynebu heriau ariannol cynyddol oherwydd y twf mewn chwyddiant a'r galw yn fwy na'r cynnydd mewn cyllid. Mae'r angen yn parhau i bob adran chwarae eu rhan i nodi hyd yn oed mwy o ostyngiadau mewn pwysau ac arbedion dros y blynyddoedd nesaf.

### c) Gweithio mewn partneriaeth, arweinyddiaeth wleidyddol a chorfforaethol, llywodraethu ac atebolrwydd

Mae Swyddogion Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd yn ymwneud â sawl enghraifft dda o weithio mewn partneriaeth effeithiol, sy'n cynnwys:

- Heneiddio'n Dda yn Sir Ddinbych, rhwydwaith amlasiantaeth sy'n llywio'r holl waith i wneud Sir Ddinbych yn Gymuned sy'n Gyfeillgar i Oed.
- Partneriaeth Dementia Rhanbarthol sydd ymysg prosiectau eraill, yn cyfrannu at waith i greu cymunedau sy'n deall dementia.
- Cydweithio rhwng darparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i greu gofal preswyl a gofal cartref diogel a gefnogwyd.
- Cydweithio rhwng arbenigwyr Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Nam ar y Synhwyrau i greu amgylcheddau sy'n cefnogi'r sawl sy'n byw gyda materion synhwyraidd.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Rydym yn comisiynu sawl prosiect rhanbarthol ac is-ranbarthol gan gynnwys Fframwaith Gofal Cartref Gogledd Cymru. Mae Sir Ddinbych yn arwain ar y gwaith i baratoi ar gyfer y tendr, cyn i'r fframwaith newydd ddechrau yn Ebrill 2025. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio sylweddol gyda chomisiynwyr ar draws Gogledd Cymru, gan gynnwys y Bwrdd Iechyd ac ymgynghori gyda darparwyr.

Mae Aseswyr Gofalwyr yn rhan o'r tîm Trydydd Sector o fewn Timau Adnoddau Cymunedol (TAC). Drwy gydweithio'n agos gyda'i gilydd mae'r ymarferwyr TAC ac aseswyr gofal yn ystyried sut y gellir bodloni deilliannau i'r gofalwr a'r sawl y gofelir amdanynt, gan gydlynu ac uno'r holl gyfleoedd ataliol sydd ar gael.

Mae cryfhau partneriaethau allweddol yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau effeithiol ac mae hyn yn amlwg gyda'r darparwyr gwasanaeth sydd wedi ymrwymo i Bontio'r Bwlch i wella'r ystod o ddewisiadau ataliol sydd ar gael i ddinasyddion.
Mae'r prosiect yn cefnogi darparwyr lleol i addasu a datblygu cyfleoedd newydd, hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, tra anogir partneriaid i ddatblygu gwasanaethau gyda ac ar ran gofalwyr di-dâl.

Mae ein partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) yn hanfodol i ddarparu gofal iechyd a chymdeithasol di-dor, ar y cyd yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae ffocws arbennig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi bod ar weithio gyda staff ysbyty yn Ysbyty Glan Clwyd i hyrwyddo rhyddhau'n effeithiol o'r ysbyty i leoliad gofal priodol yn y gymuned, boed hynny gartref gyda phecyn gofal neu i gartref gofal preswyl.

O fewn y TAC ar draws y sir mae gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio ochr yn ochr, yn defnyddio'r sgiliau a gwybodaeth mwyaf priodol, gan leihau dyblygu ymdrechion a chydweithio i gyflawni'r deilliannau gorau ar gyfer ein dinasyddion.

Mae gweithio gyda'r Trydydd Sector yn hanfodol i sicrhau ein bod yn cwrdd â'r galw ar draws Sir Ddinbych a sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'r ddarpariaeth gymunedol leol. Mae ein partneriaeth gyda CGGSDd wedi sefydlu'n dda ac maent yn hwyluso ymgysylltu gyda Sefydliadau Trydydd Sector a Gwirfoddol lleol. Mae CGGSDd yn fudd-ddeiliaid allweddol a chynrychiolir mewn ystod o grwpiau strategol/cyfarfod o fewn Sir Ddinbych ac ar draws y Rhanbarth, fel Fforwm Gwasanaethau Integredig Sir Ddinbych a Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl Gogledd Cymru.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Drwy ein partneriaeth gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, rydym yn aros i'r gwaith estyniad ar Gyfleuster Tai Gofal Ychwanegol Llys Awelon, Rhuthun gael ei gwblhau.

Mae Grŵp Cynefin yn ymestyn y ddarpariaeth bresennol gan ddatblygu 35 fflat un a dwy ystafell wely ychwanegol. Rhagwelir y bydd y datblygiad yn cael ei gwblhau yn yr haf 2024; yna bydd y 21 fflat presennol yn cael eu huwchraddio cyn i denantiaid newydd symud i mewn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Mae'r cyngor wedi rhoi trefniadau cadarn ar waith ar gyfer llywodraethu mewnol er mwyn rheoli Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion a Digartrefedd a Gwasanaethau Plant ac Addysg yn effeithiol.

Cyflwynir adroddiadau i wahanol Bwyllgorau Craffu yn ystod y flwyddyn i alluogi Aelodau Etholedig i graffu ar bolisi a pherfformiad mewn perthynas â gwasanaethau cymdeithasol a monitro cynnydd unrhyw gamau sy'n ofynnol i ymateb i adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr neu adroddiad blynyddol AGC.

Mae gennym broses hefyd sydd wedi'i hirsefydlu ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau, lle mae pob Pennaeth Gwasanaeth yn cael ei herio'n flynyddol ar feysydd fel perfformiad y gwasanaeth ac arweinyddiaeth.

Mae'r panel ym mhob cyfarfod ar gyfer herio perfformiad gwasanaethau'n cynnwys y Prif Weithredwr; Cyfarwyddwyr Corfforaethol; Aelodau Arweiniol; Aelodau Pwyllgorau Craffu a'n harchwilwyr allanol (Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru).

Yn ogystal â'r broses herio gwasanaethau, mae gan y cyngor fframwaith rheoli perfformiad cadarn, sy'n cynnwys cyflwyno adroddiadau perfformiad rheolaidd i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol, Uwch Dîm Arweinyddiaeth; Craffu; a'r Cabinet, a chyflwyno adroddiadau amrywiol i'r pwyllgor craffu ar faterion gwasanaeth arbennig, megis Digartrefedd, Contractau a Chomisiynu a Chanmoliaeth a Chwynion.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

## Cael gafael ar ragor o wybodaeth a dogfennau allweddol

### Rhestr Termau

Siarter Gofalwyr

Cynhyrchwyd y siarter ar y cyd â gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc a Grŵp Strategaeth Gofalwyr Sir Ddinbych i sicrhau bod gofalwyr yn derbyn y ddealltwriaeth a'r gefnogaeth orau bosibl. Gweler y manylion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Llyw-wyr Cymunedol

Gweithio ochr yn ochr ag Un Pwynt Mynediad yr awdurdod lleol a chynnal asesiad Beth sy'n Bwysig i benderfynu pa gymorth gallent ei ddarparu a/neu eich cyfeirio at gefnogaeth briodol yn y gymuned. Gweler y manylion ar adnodd DEWIS Cymru.

Timau Adnoddau Cymunedol (TAC)

Cynnig dull mwy cyfannol i ofal cymdeithasol ac iechyd yn y gymuned gyda staff iechyd (gan gynnwys nyrsys cymunedol, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a thimau iechyd meddwl pobl hŷn) a staff gwasanaethau cymdeithasol (gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr gofal cymdeithasol) gyda'i gilydd. Mae naw tîm yn gweithio ar y cyd yn Sir Ddinbych a Chonwy i ganolbwyntio ar gydweithio gwell er mwyn darparu gofal sy'n nes at adref, a chynnig darpariaeth well i'r boblogaeth a rhagor o ffocws a buddsoddiad ar atal ac ymyrraeth gynnar. Gweler y manylion yn Llais y Sir.

Ymgyrch Wrando Gymunedol Dinbych

Cafodd Dinbych ei dewis fel y gymuned gyntaf yng Ngogledd Cymru i helpu i lywio dyfodol gofal dementia. Nod Ymgyrch Wrando Gymunedol Dinbych, yw dod â'r grwpiau dementia rhanbarthol, ynghyd â phreswylwyr lleol, at ei gilydd i rannu straeon am y gymuned a'r hyn sy'n bwysig i helpu i siapio sut y gofalir am bobl leol â dementia.

Wrth roi pobl leol wrth wraidd y drafodaeth am ofal dementia, ynghyd â chefnogaeth gan Welliant Cymru a Citizens UK, nod Ymgyrch Wrando Gymunedol Dinbych yw bod pobl leol yn cyd-gynhyrchu cynllun ar gyfer sut y dylai gofal dementia gael ei deilwra i breswylwyr Dinbych, i sicrhau bod pobl â dementia yn cael y profiad gorau bosibl o fyw yn eu cartref eu hunain a chymryd rhan mewn bywyd cymunedol.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd)

Y nod yw hyrwyddo, cefnogi, galluogi a datblygu Trydydd Sector cynaliadwy yn Sir Ddinbych. Maent yn cefnogi sefydliadau i ddarparu eu gwasanaethau mewn modd effeithiol a chynaliadwy drwy ddarparu cyrsiau hyfforddiant rhad, cyngor a gwybodaeth ariannol, a chefnogi gwirfoddolwyr i'w galluogi i gymryd mwy o ran yn eu cymunedau. Gweler y manylion ar adnodd DEWIS Cymru.

Grwpiau Sgiliau Therapi Ymddygiad Dialectig (DBT)

Mae DBT yn brofiad yn seiliedig ar sgiliau sy'n caniatáu i rieni a gofalwyr ddatblygu sgiliau bywyd craidd sy'n helpu unigolion i reoli emosiynau cryf, rheoli sefyllfaoedd anodd a phrofi perthynas fwy caredig â nhw eu hunain ac eraill.

Tîm Ar Ymyl Gofal - Oedolion

Mae'r Tîm Ffiniau Gofal wedi'u lleoli o fewn Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion, ac yn recriwtio, hyfforddi a lleoli gwirfoddolwyr. Mae'r Tîm wedi dangos sut gall y prosiect gael effaith gadarnhaol ar y llwybrau gofal cynlluniedig, drwy helpu i ryddhau dinasyddion o'r ysbyty gan weithio'n agos gyda'n Timau Adnoddau Cymunedol i ddarparu dull 'tîm o amgylch yr unigolyn' a lleihau'r galw am ofal traddodiadol cynlluniedig.

Gwasanaeth Ar Ymyl Gofal - Plant

Cefnogaeth i deuluoedd diamddiffyn y mae eu plant mewn perygl o fod angen derbyn gofal gan yr awdurdod lleol. Manylion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Adolygiad Cyd-Arolygaeth o Drefniadau Amddiffyn Plant: Sir Ddinbych 2023

Ynghyd ag Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi (HMICFRS) a Gwasanaethau Tân ac Achub  (dolen allanol), Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGC) (dolen allanol) ac Estyn (dolen allanol), cynhaliodd AGC arolwg ar y cyd o ymateb amlasiantaeth i gam-drin ac esgeulustod yn Sir Ddinbych. Darllenwch yr adroddiad yma.

Trefniadau Amddiffyn Rhyddid

Bwriedir i'r Trefniadau Diogelu Rhyddid ddod i rym ym mis Ebrill 2022, byddant yn diogelu pobl 16 oed a hŷn sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid neu y mae angen iddynt gael eu hamddifadu o'u rhyddid er mwyn galluogi eu gofal neu driniaeth ac sydd â diffyg gallu meddyliol i gydsynio i'w trefniadau.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Mae pobl sydd o bosibl ag awdurdodiad Trefniadau Amddiffyn Rhyddid yn cynnwys y rheiny â dementia, awtistiaeth ac anableddau dysgu sydd â diffyg gallu perthnasol. Gweler y manylion ar wefan Llywodraeth y DU.

Symud ag Urddas

Ers 2019, mae Therapydd Galwedigaethol wedi bod yn gweithio ar y prosiect hwn o fewn y Tîm Adolygu, gan fwrw ymlaen â chynlluniau ymarferol i weithredu newidiadau i'r ffyrdd y mae preswylwyr Sir Ddinbych yn cael eu hasesu ar gyfer ac yn derbyn cefnogaeth symud a chodi. Mae hi wedi bod yn canolbwyntio ar ddeall y broblem, ymchwilio i arfer orau, a nodi ffyrdd o ddarparu hyfforddiant effeithiol ac ymgysylltu â'r grwpiau staffio cywir (gan gynnwys yr awdurdodau lleol, cydweithwyr iechyd a gwasanaethau darparwyr).

Fe allai hyn helpu i gyflymu'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty ac fe allai gael effaith gadarnhaol ar les a synnwyr o reolaeth dinasyddion a'u gofalwyr, gan gynyddu gwytnwch ac ymgysylltiad.

Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol ar drais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol.

Canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar y gofynion statudol ar gyfer hyfforddiant ar draws y gwasanaeth cyhoeddus a'r trydydd sector arbenigol Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llyw.Cymru

Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru (GOGDdC)

Mae GOGDdC yn darparu gwybodaeth, cefnogaeth unigol, hyfforddiant a chwnsela i ofalwyr di-dâl sy'n byw yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Gweler y manylion ar adnodd DEWIS Cymru.

Prosiect ARFer

Mae'r prosiect yn rhan o'r Rhaglen ARFer sy'n fethodoleg newid ymddygiad. Mae'r rhaglen ARFer yn fethodoleg newid ymddygiad gyda'r bwriad o newid arferion iaith er mwyn galluogi cydweithwyr sy'n gallu siarad Cymraeg (ond sydd wedi sefydlu arferiad o ddefnyddio Saesneg) i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith.

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023 – 2024

Un Llwybr Mynediad at Dai (SARTH)

Mae Sir Ddinbych yn gweithredu gwasanaeth Un Llwybr Mynediad at Dai, sy'n golygu mai dim ond un cais y bydd rhaid i ymgeiswyr ei wneud i fynd ar y Gofrestr Dai yn hytrach nag un i bob darparwr tai.

Rhennir y SARTH gan bob darparwr tai cymdeithasol yn Sir Ddinbych gan gynnwys:

- Cyngor Sir Ddinbych
- Tai Sir Ddinbych
- Grŵp Cynefin
- Clwyd Alyn
- Tai Gogledd Cymru a Wales and West Housing
- ADRA
- Cartrefi Conwy

Un Pwynt Mynediad (SPoA)

Mae'r tîm yn cynnwys staff profiadol o'r sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector, sy'n gallu darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth yn ymwneud â'r gwasanaethau sydd ar gael. Mae Un Pwynt Mynediad yn 'ddrws ffrynt i wasanaethau' i sicrhau bod unigolion yn cael y gofal cywir, yn y man cywir gan bobl sydd â'r sgiliau cywir ar yr amser cywir, y tro cyntaf. Manylion ar gael ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 ac Arolygiadau o Hyfforddiant Deddf Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth, ac ar gyfer trawsnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r Arolygiadau o Hyfforddiant Deddf Gofal Cymdeithasol yn gwella trefniadau diogelu ar gyfer y rhai sydd ei angen, ac yn sefydlu system reoliadol sy'n unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn creu system reoliadol sy'n canolbwyntio ar y bobl sydd angen gofal a chefnogaeth, a'r gweithlu gofal cymdeithasol. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith statudol ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Gofal Cymdeithasol Cymru .

